# Arweiniad atodol: anghenion dysgu ychwanegol

Hydref 2024

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio dysgwyr
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- darpariaeth trochi yn y Gymraeg
- gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Beth yw’r diben? |
| --- |
| Rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr, i’w ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector, wrth werthuso’r deilliannau a’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. |
| **Ar gyfer pwy mae wedi’i fwriadu?** |
| Ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir, ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig, colegau addysg bellach, colegau annibynnol arbenigol ac unedau cyfeirio disgyblion. |
| **Pryd y dylid dechrau defnyddio’r arweiniad?** |
| Medi 2024 |

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


**Arweiniad atodol** 1

**Cyflwyniad** 2

**Fframwaith Arolygu Estyn** 3

Maes arolygu 1: Addysgu a Dysgu 3

Maes arolygu 2: Lles, Gofal, cymorth ac arweiniad 7

Maes arolygu 3: Arwain a gwella 11

**Atodiad 1: Trosolwg o ddeddfwriaeth ADY** 15

**Atodiad 2: Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)** 17

**Atodiad 3: Darpariaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd** 19

**Atodiad 4: ADY ar gyfer lleoliadau nas cynhelir** 23

**Atodiad 5: Byrfoddau Cyffredin** 26

**Atodiad 6: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau â dysgwyr sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl** 28

**Atodiad 7: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau â dysgwyr sydd â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth (CSA)** 32

**Atodiad 8: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau sy'n defnyddio arferion cyfyngol** 37

**Atodiad 9: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau â dysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw** 43

**Atodiad 10: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau â dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog** 46

**Atodiad 11: Cwestiynau ar gyfer arolygu lleoliadau sydd â lleoliadau preswyl cysylltiedig** 50

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy'n arwain gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector rydym yn ei arolygu, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwys).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn ddi-ben-draw wrth gwmpasu unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg sy'n codi yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai dogfennau'r arweiniad atodol helpu ysgolion i ennill dealltwriaeth o'n trefniadau arolygu. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ysgolion wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd cadarnhaol i sicrhau mai dyma'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl ar gyfer y staff ym mhob ysgol
- Bydd arolygwyr yn defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr at arolygu
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arferion arloesol tra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra'r gweithgareddau arolygu yn unol â'r amgylchiadau ym mhob ysgol cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r ystod gynyddol o offer a'r dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau ym mhob ysgol yn unig

## Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn disodli ein harweiniad blaenorol ynghylch 'dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 2022'. Mae'n cynorthwyo arolygwyr wrth werthuso'r deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n cynnwys gwybodaeth fuddiol i gefnogi arolygu deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Dylai arolygwyr ddefnyddio'r arweiniad hwn ochr yn ochr â'u harweiniad sector eu hunain. Hefyd, gallai fod yn fuddiol iddynt gyfeirio at ein harweiniad atodol ar faterion cysylltiedig sy'n dylanwadu ar ddeilliannau a darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hyn, er enghraifft ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles.

### Diwygio ADY

Pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r ddeddfwriaeth ym mis Ionawr 2018 a daeth yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf': Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Yn sgil y Ddeddf, trefnwyd darpariaeth ar gyfer ffr amwaith statudol newydd i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY.

O dan y Ddeddf, disodlwyd y term angen addysgol arbennig (AAA) â'r term angen dysgu ychwanegol (ADY). Disodlwyd y term 'darpariaeth addysgol arbennig' â'r term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol'. Trefnwyd rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn wreiddiol dros gyfnod o dair blynedd, rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2023, ochr yn ochr â chyflwyno'r rhaglen trawsnewid ADY ehangach. Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig COVID-19, ni ddechreuodd y cyfnod hwn tan fis Medi 2021. Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae deddfwriaeth AAA bresennol yn parhau i fod yn berthnasol, a bydd yn parhau i fod felly hyd nes cwblhau'r cyfnod gweithredu. Gellir gweld mwy o wybodaeth am y newidiadau allweddol a gyflwynwyd gan y Ddeddf yn Atodiad 1.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu amrywiad o ran sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol (ALlau) wedi defnyddio'r termau 'AAA' ac 'ADY'. Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n debygol y bydd anghysondeb yn parhau yn y derminoleg a ddefnyddir gan wahanol ysgolion. Yn benodol, gellir defnyddio'r term AAA o hyd yn ystod y cyfnod gweithredu ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â datganiad o AAA yn hytrach na chynllun datblygu unigol (CDU). Ni ddylai arolygwyr ganolbwyntio ar y derminoleg a ddefnyddir. Yn hytrach, dylent werthuso pa mor dda y mae'r ysgol yn cynllunio, yn monitro ac yn adolygu darpariaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr sydd ag ADY.

Mae Iaith Pawb, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn cydnabod hawl dysgwyr ag ADY i gael darpariaeth yn eu dewis iaith, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig diwygiedig Cymru (2004).

Mae Cod ADY Cymru yn cynnwys canllawiau statudol i ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac eraill ar y system anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch weld y Cod yma: Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

2021. At hynny, yn 2023, cwblhaodd Estyn adolygiad thematig o weithredu'r diwygiadau, sydd i'w weld yma: Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd | Estyn (llyw.cymru).

Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol drefnu darpariaeth briodol ar gyfer yr holl ddysgwyr, yn cynnwys y rhai ag ADY. Ers Tachwedd 2020, mae'n ofynnol bod pob cais am gofrestru ysgol annibynnol yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir gan yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol a cholegau annibynnol arbenigol ystyried y Cod ac ni osodir unrhyw ofynion arnynt ganddo.

## Fframwaith Arolygu Estyn

Dylai arolygwyr sicrhau bod gwerthusiad o'r tri maes arolygu yn cynnwys ystyried y deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr, yn cynnwys y rhai ag ADY.

### Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu

Bydd angen i werthusiadau ar safonau dysgwyr sydd ag ADY ystyried y wybodaeth sydd ar gael am eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Bydd gwerthusiadau'n ystyried eu cyraeddiadau a'u cyflawniadau o ran nodau dysgu unigol cytûn.

**Categorïau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**

Mae CYBLD yn cyfeirio at y categorïau ADY canlynol:

- Anawsterau dysgu cyffredinol
- Anawsterau dysgu cymedrol (ADC)
- Anawsterau dysgu difrifol (ADD)
- Anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl)
- Dyslecsia
- Dyscalcwlia
- Dyspracsia
- Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)
- Anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth (ASA)[1]
- Anawsterau corfforol a meddygol
- Amhariad ar y clyw
- Amhariad ar y golwg
- Amhariad amlsynnwyr
- Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh)[1]
- Anawsterau dysgu penodol (ADP)

Nid yw hi bob amser yn briodol gwerthuso safonau a chynnydd gwahanol grwpiau,

[1] Rydym yn defnyddio'r termau cyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth (CSA) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl wrth gyfeirio at y categorïau ADY hyn.

yn enwedig pan fydd niferoedd bach o ddysgwyr o fewn grŵp penodol. Mae'n bwysig cydnabod y gallai'r dysgwyr hyn fod yn gwneud cynnydd cryf o ran eu man cychwyn a'u hanghenion unigol.

Fodd bynnag, pan fydd grŵp penodol o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gwell neu waeth na'r garfan gyffredinol neu grwpiau eraill o ddysgwyr ag ADY, gallai arolygwyr ei ystyried yn fuddiol cynnwys cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad.

- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol?
- A yw dysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud, ac a ydynt yn mynd ati i gymryd rhan mewn gosod targedau ar gyfer gwella pan fydd hyn yn briodol?
- A yw dysgwyr yn cyflawni'r amcanion disgwyliedig sydd wedi'u cynnwys yn eu CDUau?
- A yw targedau ar gyfer datblygu yn berthnasol ac yn ddigon heriol? A ydynt yn gysylltiedig â CDUau?
- A yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da neu gynnydd gwael? Pam?

**Cyfraddau cynnydd dysgwyr ar gyfer y rhai ag ADY**

Wrth arolygu ysgolion, dylai arolygwyr fod yn wyliadwrus o gymharu perfformiad dysgwyr ag ADY â pherfformiad eu cyfoedion nad oes ganddynt ADY. Mae'n debygol na fydd llawer ohonynt yn cyflawni cystal â'u cyfoedion o ran medrau neu feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, efallai eu bod wedi gwneud cynnydd cryf dros gyfnod o ran eu mannau cychwyn unigol. Pan fydd dysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd cryf, dylid cydnabod hyn yn yr adroddiad. Dyma ble gallai fod enghreifftiau o hyn:

- mae dysgwr ag anawsterau cyfathrebu yn magu'r hyder i gyfathrebu â'i gyfoedion a chymryd rhan mewn gwasanaeth ysgol
- mae dysgwr â medrau cydsymud gwael yn dysgu gwisgo'i gôt amser chwarae
- mae dysgwr ag anawsterau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol yn ennill y cymwysterau angenrheidiol i symud ymlaen i goleg neu gyflogaeth
- mae dysgwr â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth (CSA) yn cwblhau lleoliad profiad gwaith yn llwyddiannus

- Sut mae cyfraddau cwblhau cyrsiau ar gyfer dysgwyr a chymwysterau yn cymharu ar gyfer dysgwyr ag ADY a chyfraddau cwblhau dysgwyr eraill?
- Pa mor dda y mae dysgwyr ag ADY yn cymhwyso eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd, yn cynnwys y tu allan i'r ystafell ddosbarth?
- A yw anawsterau penodol dysgwyr, fel canolbwyntio gwael neu fedrau cyfathrebu gwan, yn rhwystro eu cynnydd a'u cyfle i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan?
- A yw dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r medrau y maent yn eu datblygu mewn sesiynau grŵp bach/1:1 i sefyllfa dosbarth cyfan a bywyd ehangach yr

ysgol yn llwyddiannus?
- A yw dysgwyr yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu / cyfathrebu di-eiriau yn effeithiol i fynegi eu hanghenion a'u barn, a rhyngweithio â phobl eraill?
- A yw dysgwyr yn datblygu eu medrau corfforol / medrau echddygol manwl / medrau echddygol bras yn briodol?
- A yw dysgwyr yn datblygu'r medrau y bydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd yn y dyfodol?
- A yw dysgwyr yn datblygu annibyniaeth a medrau gwneud penderfyniadau priodol, yn cynnwys hunanofal, hylendid personol, trin arian?

**Datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu**

- A yw pob dysgwr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at anabledd ac ADY?
- I ba raddau y mae disgyblion ag ADY yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol? Er enghraifft, trwy glybiau cinio, clybiau ar ôl yr ysgol.
- A oes gan ddysgwyr ag ADY rolau â chyfrifoldeb yn yr ysgol? Er enghraifft, aelodaeth o'r cyngor ysgol, mentora cyfoedion.
- A yw dysgwyr ag ADY yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn?
- A yw dysgwyr ag ADY yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau pan fydd y penderfyniadau hyn yn effeithio arnyn nhw?
- A oes gan ddysgwyr unrhyw anghenion cwricwlwm nad yw'r ysgol yn darparu ar eu cyfer?
- Pa mor dda y mae rhaglenni astudio yn diwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu sylweddol?
- A yw'r ysgol yn darparu profiadau dysgu ychwanegol i ddysgwyr sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn goresgyn anawsterau â bylchau mewn dysgu ac ailadrodd y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sydd wedi symud lleoliadau nifer o weithiau?
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr o ran mannau cychwyn unigol?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf mewn dysgu a bywyd? Er enghraifft, annibyniaeth, hunanofal neu drin arian.
- A oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol, go iawn?
- A yw deunyddiau a dulliau cyflwyno yn gwneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob un o'r dysgwyr?
- A yw'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddysgwyr ag ADY ddatblygu eu medrau Cymraeg, lle bo'n briodol?
- A yw dysgwyr sy'n manteisio ar y cwricwlwm yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu Saesneg â chymorth arwyddion (SSE), Braille neu brint bras yn cael cymorth i wneud hynny pan fydd ei angen arnynt?

**Addysgu**

- A yw'r dulliau addysgu a ddefnyddir yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb pob dysgwr?

- A yw ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol wrth i ddysgwyr chwarae a dysgu'n annibynnol i ddatblygu eu medrau ar lefel addas?
- Pa mor effeithiol yw'r defnydd a wneir o sesiynau unigol / grŵp targedig ar gyfer dysgwyr?
- I ba raddau y mae addysgu yn ystyried anghenion dysgwyr unigol?
- A yw gwaith yn briodol o heriol ac ymestynnol ar gyfer yr holl ddysgwyr?
- Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau ymyrraeth gynnar yr ysgol?
- I ba raddau y mae addysgu yn gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr?
- A oes gan staff ddisgwyliadau uchel, ac a ydynt yn darparu gwaith heriol i ddiwallu anghenion pob dysgwr?

### Asesu

- A yw staff yn rhoi adborth mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i ddysgwyr? A yw'r adborth hwn yn diwallu eu hanghenion unigol?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon sy'n dangos dealltwriaeth o'u perfformiad eu hunain a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella?
- A yw'r ysgol yn defnyddio ystod o offer a gweithdrefnau asesu ychwanegol priodol ar gyfer nodi anghenion dysgwyr?
- A oes gan yr ysgol systemau priodol ar waith i olrhain cynnydd dysgwyr ag ADY?
- A yw'r ysgol yn defnyddio data asesu'n dda i fonitro cynnydd dysgwyr ag ADY, ac yn cynllunio'r cwricwlwm a/neu anghenion cymorth dysgwyr mewn modd amserol?
- Pa mor effeithiol yw adroddiadau blynyddol i rieni a gofalwyr? A ydynt yn glir ac yn bersonol, ac wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'r dysgwr? A ydynt yn rhoi disgrifiad digon da o'r cynnydd a wnaed gan unigolion?
- A yw adroddiadau i rieni a gofalwyr yn cysylltu'n ddigon da â thargedau wedi'u cynnwys mewn CDUau?

### Adborth ysgrifenedig

Ni fydd pob un o'r dysgwyr yn gallu manteisio ar adborth ysgrifenedig. Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw adborth ysgrifenedig yn helpu dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith, a ph'un a yw adborth yn arwain at welliant, mewn gwirionedd. Os nad felly y mae, gallai fod yn fwy effeithiol rhoi adborth ar lafar.

**Cynnydd mewn medrau**

Wrth arolygu cynnydd mewn medrau, mae hefyd yn bwysig ystyried y medrau sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu yn eu bywydau bob dydd a'u paratoi ar gyfer y dyfodol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys tynnu a gwisgo eu hesgidiau, defnyddio'r toiled yn annibynnol, dysgu darllen amserlen fysiau, trin eu harian, talu biliau, gofyn am gymorth pan fyddan nhw allan yn y gymuned, adnabod arwyddion a symbolau.

Wrth werthuso cynnydd dysgwyr mwy abl ag ADY, dylai arolygwyr ganolbwyntio ar y cynnydd y maent wedi'i wneud o ran eu mannau cychwyn unigol, ond gallent

hefyd ystyried sut mae hyn yn ymwneud â chynnydd dysgwyr o allu gwybyddol tebyg heb unrhyw ADY.

**Cynnydd o ran mannau cychwyn**

Mae ysgolion yn mesur man cychwyn dysgwr mewn gwahanol ffyrdd. Gallai hyn gynnwys:

- Arsylwi gan yr athro dosbarth ac aelodau staff perthnasol eraill
- Asesu medrau personol a chymdeithasol, llythrennedd a rhifedd dysgwr yn ffurfiol
- Gwybodaeth o CDU dysgwr
- Gwybodaeth o adroddiadau arbenigwyr, er enghraifft adroddiadau seicolegydd addysg, therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol
- Gwybodaeth o ysgol flaenorol

Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael iddi mewn mannau eraill yn y fframwaith, yn enwedig maes arolygu 2 (2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad) a maes arolygu 3 (3: Arwain a gwella). Bydd y maes arolygu hwn yn canolbwyntio ar y wybodaeth mae'r dystiolaeth hon yn ei dweud wrth arolygwyr am y cynnydd a wna dysgwyr yn eu dysgu.

Nid oes unrhyw ddisgwyliad cytûn ynghylch faint o gynnydd y dylai dysgwr ei wneud o ran ei fan cychwyn, gan y bydd hyn yn amrywio yn ôl gallu ac anghenion pob dysgwr unigol. Yn yr un modd, nid yw llawer o ddysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd cyson ('llinol') wrth ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, yn aml, mae gan ddysgwyr â CSA 'broffil pigfaen', gyda gwahanol lefelau medr mewn maes cyffredinol, fel arddangos cryfderau wrth adnabod geiriau a sillafu, ond eto'n cael trafferth â'u dealltwriaeth.

Bydd ysgolion yn defnyddio ystod o ddulliau i werthuso'r cynnydd a wna dysgwyr ag ADY. Dylai arolygwyr wirio'n ofalus fod y dulliau hyn yn drylwyr a bod y wybodaeth y maent yn ei darparu yn gywir a dibynadwy.

## Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

**Presenoldeb**

Wrth ystyried cyfraddau presenoldeb dysgwyr ag ADY, mae'n bwysig ystyried ffactorau fel salwch (yn gysylltiedig â chyflyrau) ac apwyntiadau (meddygol, therapiwtig).

O ran dysgwyr sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, mae'n bwysicach ystyried eu presenoldeb gwell dros gyfnod. Mewn llawer o achosion, bydd gan y dysgwyr hyn hanes gwael o ran presenoldeb, a gallent fod wedi mynychu sawl ysgol wahanol. O ran y dysgwyr hyn, dylid/gellid ystyried bod gwelliannau sylweddol mewn ymgysylltiad yn gynnydd ym maes arolygu 1.

Mae arweiniad perthnasol Llywodraeth Cymru i'w weld yma: Perthyn, ymgysylltu a

chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.

**Amserlenni rhan-amser**

Yn aml, defnyddir y rhain i gynorthwyo dysgwyr i wella'u presenoldeb ac ailintegreiddio i addysg. Dylid eu defnyddio dim ond fel rhan o gynllun yn symud tuag at addysg amser llawn, fel mesur tymor byr yn unig.

Dywed yr arweiniad: Os bydd ysgol yn gosod amserlen ran-amser i ddisgybl o oedran ysgol gorfodol, er enghraifft, fel rhan o ailintegreiddio, yna mae'r ysgol yn awdurdodi absenoldeb y disgybl o'r sesiynau nad ydynt ar yr amserlen. Dylid cofnodi'r absenoldeb hwnnw o dan god C. Ni ddylai ysgolion osod amserlenni rhan-amser i ddisgyblion am gyfnod amhenodol a dylent adolygu'r amserlen yn rheolaidd.

Mae'n bwysig ystyried yr effaith a gaiff y rhain ar fynediad dysgwyr i'r cwricwlwm cyfan. Mae mwy o wybodaeth o'n hadroddiad thematig ar brofiadau dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol i'w gweld yma: Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) | Estyn (llyw.cymru).

- Sut mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr ag ADY yn cymharu â chyfraddau presenoldeb dysgwyr eraill?
- A yw dysgwyr â phresenoldeb gwael yn gwella eu presenoldeb dros gyfnod?
- Sut mae cyfraddau gwahardd dysgwyr ag ADY yn cymharu â chyfraddau gwahardd dysgwyr eraill? (Mae hyn yn berthnasol i wahardd mewnol ac allanol)
- A oes gostyngiad yng nghyfraddau gwahardd dysgwyr unigol dros gyfnod?
- A yw dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu gwydnwch yn eu dysgu?
- A yw pob un o'r dysgwyr yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymgysylltu'n dda â thasgau?
- A yw pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd wrth gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- O ran eu hangen nodedig, a yw dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl?
- A yw staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac ymddygiad?[2]

**Staff cymorth**

O fewn ysgolion a cholegau, gallai dysgwyr gael cymorth neilltuedig, sy'n cael ei gofnodi yn eu CDU. Cyfeirir at hyn yn aml fel cymorth 1:1. Mae ystyriaethau pwysig i'w gwneud pan roddir cymorth 1:1.

Oni nodir yn glir mewn CDU dysgwr, nid oes rhaid i gymorth gael ei ddarparu gan un aelod staff. Yn gyffredinol, mae'n arfer dda rhannu'r gwaith, fel nad yw'r dysgwr yn dechrau dibynnu'n ormodol ar un unigolyn. Gallai'r aelod staff gynorthwyo'r dysgwr ochr yn ochr â dysgwyr eraill. Fel arfer, ni ddylai'r aelod staff eistedd ochr yn ochr â'r dysgwr bob amser, gan y gall hyn atal annibyniaeth a'i gwneud yn

[2] Trwy gydol yr arweiniad hwn, defnyddir y term 'staff cymorth' i ddynodi staff, heblaw athrawon, sy'n cael eu cyflogi i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, cynorthwywyr cymorth dysgu, cynorthwywyr cymorth ymddygiad a chynorthwywyr cyfathrebu.

anodd i ddysgwr ddatblygu perthnasoedd â'i gyfoedion. Mae hyrwyddo annibyniaeth yn bwysig iawn. Mae'n well i ddysgwr gwblhau ychydig o gwestiynau mathemateg yn annibynnol na gorffen yr holl waith gyda chymorth.

Dylid caniatáu i ddysgwyr wneud camgymeriadau a'u cywiro ar eu pen eu hunain, yn hytrach na dweud wrthynt bob tro maent yn gwneud camgymeriad. Pan fydd arolygwyr yn pryderu am y model cymorth a ddefnyddir, dylent ofyn i'r ysgol pa drefniadau sydd ar waith i ddatblygu annibyniaeth dysgwr.

- Pan fydd yn berthnasol, a ymgynghorir â dysgwyr ynglŷn â phryd sydd fwyaf priodol iddyn nhw gael eu tynnu allan o waith y grŵp dosbarth ar gyfer gwaith unigol?
- A gaiff dysgwyr eu grwpio mewn ffordd sy'n eu helpu i ddysgu orau, yn cynnwys grwpiau tynnu allan o wersi a grwpiau dosbarth bach?
- A yw dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau arbenigol neu grwpiau bach yn cael ystod o brofiadau, yn cynnwys cydweithio â dysgwyr eraill?
- A yw trefniadau eistedd yn diwallu anghenion dysgwyr ag ADY?
- A yw pob un o'r staff sy'n cynorthwyo dysgwyr ag ADY yn ymwybodol o dargedau mewn CDUau?
- Pa mor dda y mae staff cymorth yn deall ac yn defnyddio strategaethau i gefnogi ADY dysgwyr unigol?

**Tynnu allan ar gyfer sesiynau unigol / grŵp**

Yn dibynnu ar y cyd-destun, gellir tynnu dysgwyr allan o ddosbarth ar gyfer sesiynau unigol neu grŵp. Fel arall, gallent gael ymyriadau targedig yn yr ystafell ddosbarth.

Yn gyffredinol, dylai ysgolion geisio osgoi tynnu dysgwyr allan o wersi yn rhy aml, oherwydd gall hyn olygu eu bod yn colli allan ar ryngweithio â dysgwyr eraill. Pan fydd arbenigwyr, fel therapyddion neu athrawon amhariad ar y golwg / amhariad ar y clyw / anawsterau dysgu penodol yn gweithio gyda dysgwyr unigol, mae'n fuddiol os gall y gwaith hwn gael ei wneud yn yr ystafell ddosbarth, er mwyn i staff prif ffrwd allu elwa ar yr ymyrraeth arbenigol.

**Addasiadau i'r cwricwlwm**

Lle ceir arfer dda, nid yw staff yn addasu gwaith a baratowyd ar gyfer gweddill y dosbarth yn unig. Yn hytrach, maent yn ystyried pob dysgwr o'r cychwyn, ac yn paratoi gwaith a dulliau addysgu sy'n diwallu eu hanghenion. Mae 'addasiadau' priodol yn cynnwys creu copïau Braille neu brint bras ar gyfer dysgwyr ag amhariad ar y golwg, defnyddio diddordebau arbennig dysgwyr i ennyn eu diddordeb mewn dysgu neu roi egwylion symud rheolaidd i ddysgwyr â CSA i helpu lleihau'r gorbryder sy'n gysylltiedig ag ystafell ddosbarth brysur, canolbwyntio o'r newydd ac ymdawelu.

**Nodi a chefnogi anghenion**

- A oes gan yr ysgol systemau cadarn ar waith ar gyfer adnabod ADY dysgwyr unigol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol?
- I ba raddau y mae dysgwyr ag ADY yn gadael cofrestr yr ysgol cyn cwblhau naill ai addysg statudol neu'u cwrs? Pa resymau a roddir am hyn, a sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu â llywodraethwyr neu'r awdurdod lleol?
- A oes cysylltiadau agos a chynllunio da ar y cyd rhwng unrhyw ddarpariaeth adnoddau a darpariaeth brif ffrwd?
- A yw cymorth dysgu yn briodol? A yw'r ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon da o effeithiolrwydd y cymorth?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol a chymdeithasol?
- Pan fydd yn berthnasol, a yw trefniadau arholi arbennig wedi eu cynllunio'n dda, ac yn cael eu trafod a'u cytuno gyda dysgwyr?
- Pan fydd yn berthnasol ac yn briodol, a oes cynlluniau datblygedig ar gyfer trosglwyddo'n ôl i ddarpariaeth brif ffrwd?

**Cynllunio ar gyfer pontio**

Mae cyswllt clir rhwng pontio gwael a deilliannau gwael ar gyfer plant. Gallai pontio aflwyddiannus arwain at bresenoldeb gwael ac ymddieithrio o addysg. Bydd dysgwyr yn mynd trwy sawl cyfnod pontio trwy gydol eu bywyd ysgol, a dylid cynllunio'r rhain yn ofalus, yn enwedig ar gyfer y rhai ag ADY.

Dylid cynnwys dysgwyr mewn trafodaethau a chynllunio ar gyfer pontio, lle bo modd. Mae ymchwil wedi dangos bod defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer cyfnod pontio yn helpu gwella profiad plant a'u teuluoedd. Gellir dogfennu unrhyw gymorth ychwanegol a nodwyd ar gyfer cyfnod pontio yn y CDU er mwyn gallu gweithredu ar yr adeg briodol. Gall cyfuno cynllunio cyfnod pontio ag adolygiadau CDU fod yn ffordd effeithlon ac effeithiol o ddefnyddio adnoddau.

I gael mwy o wybodaeth am sut i gynorthwyo dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio penodol, fel trosglwyddo i leoliad addysg cyntaf dysgwr, neu drosglwyddo i leoliad newydd, gweler Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn rheoli trosglwyddiadau dysgwyr ag ADY o fewn yr ysgol neu'r diwrnod ysgol, er enghraifft pan fydd dysgwyr yn mynychu dosbarth arbenigol o fewn yr ysgol brif ffrwd.

- A oes gan yr ysgol bolisi clir ynglŷn â defnyddio ymyrraeth gorfforol ataliol? A yw hwn yn bodloni'r disgwyliadau mewn canllawiau cenedlaethol fel cylchlythyr 272/2021 Llywodraeth Cymru: 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002' ac 'Ymyriad diogel ac effeithiol: defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau', dogfen ganllawiau 097/2013 Llywodraeth Cymru?
- A yw staff wedi eu hyfforddi'n briodol mewn ymyrraeth gorfforol gyfyngol, lle bo'n briodol?
- A oes gan yr ysgol systemau priodol i gofnodi digwyddiadau, yn cynnwys adrodd i gyrff perthnasol? A yw staff yn dilyn y gweithdrefnau hyn yn drylwyr?

- A yw protocolau meddygol ar gyfer dysgwyr anabl unigol yn gyfoes, ac a yw staff wedi cael hyfforddiant priodol?
- I ba raddau y mae ymagwedd yr ysgol at wrthfwlio yn effeithiol, yn enwedig o ran dysgwyr ag ADY?

**Maes arolygu 3: Arwain a gwella**

**Ymagwedd ysgol gyfan at ADY**

- A oes gan yr ysgol ethos clir o ran cynhwysiant ac amrywiaeth?
- A yw pob un o'r staff, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr a dysgwyr yn rhannu'r ethos hwn?
- A yw arweinwyr yn rhoi ffocws strategol priodol ar ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth a dealltwriaeth staff i wneud addasiadau addas i'r cwricwlwm a/neu gymorth?

**Rôl y Cydlynydd anghenion dysgu ychwanego (Cydlynydd ADY)**

- A yw rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY wedi eu diffinio'n glir?
- A yw'r Cydlynydd ADY yn ymwybodol o ganllawiau lleol a chenedlaethol ar adnabod ac asesu dysgwyr ag ADY, a'u rôl wrth roi'r canllawiau ar waith?
- A oes digon o amser heb addysgu i'r Cydlynydd ADY gyflawni ei rôl?
- A yw'r Cydlynydd ADY yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol? Yn y cyd-destun hwn, dylai arolygwyr gofio bod profiad a meysydd arbenigedd staff yr un mor bwysig ag unrhyw gymwysterau penodol mewn ADY.
- Pa mor dda y mae staff dynodedig, yn cynnwys staff cymorth, yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol?
- A oes gan yr ysgol ddigon o staff sydd â'r medrau cywir i gynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu?

**Rôl y CydADY**

O dan y ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r holl ysgolion prif ffrwd a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi unigolyn fydd â chyfrifoldeb am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Bydd yr unigolyn hwnnw'n cael ei adnabod fel cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, neu CydADY. Dylai'r CydADY fod yn athro neu rywun â phrofiad blaenorol fel cydlynydd anghenion addysgol arbennig, neu CydAAA.

Dylai lleoliadau ystyried set medrau a phrofiad yr unigolyn i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a bennir yn y gyfraith. Dylai CydADY fod yn hynod gymwys a dylai fod ganddynt arbenigedd mewn arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a delio a sbectrwm eang o ADY. Dylai CydADY fynd ati i ymgymryd â hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Nid yw dynodi CydADY yn dileu cyfrifoldebau'r gweithlu ehangach; mae cyfrifoldeb gan bob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu nodi a'u diwallu.

Y CydADY yw'r unigolyn sydd, ar lefel strategol, yn sicrhau bod anghenion pob

dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Mae’r rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg, ac felly, dylai naill ai ffurfio rhan o’r uwch dîm arweinyddiaeth neu gael llinell gyfathrebu glir i’r uwch dîm arweinyddiaeth.

**Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC)**

Mae gan awdurdodau lleol rôl sylweddol mewn cynorthwyo darparwyr y Blynyddoedd Cynnar (gweler Penodau 10 ac 11 y Cod i gael mwy o wybodaeth), yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir, i fodloni gofynion y Cod ADY. Erbyn hyn, mae angen i bob awdurdod lleol gael Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y ddeddf.

Bydd gan SAADYBC yr awdurdod lleol ran bwysig mewn gwella nodi anghenion yn gynnar; sefydlu llwybrau cyfeirio a chodi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid amlasiantaethol; sicrhau cynllunio gwell ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol; a helpu sicrhau bod gweithlu’r blynyddoedd cynnar yn meddu ar y medrau, y mecanweithiau a’r offer priodol i gynorthwyo plant ifanc ag ADY. **Dylai arolygwyr nodi nad yw’n ddisgwyliad mwyach y dylai lleoliadau nas cynhelir gael eu cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) eu hunain.**

I gael mwy o arweiniad ar rôl y CydADY a’r SAADYBC, gweler: Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

## Rôl y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli

- I ba raddau y mae’r llywodraethwr dynodedig yn “hyrwyddwr” ar gyfer dysgwyr ag ADY?
- Pa mor effeithiol y mae’r llywodraethwr dynodedig yn dwyn yr uwch dîm arweinyddiaeth i gyfrif am y safonau a’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY?

## Rheoli adnoddau

- A yw’r ysgol yn dyrannu digon o adnoddau i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY?
- A gaiff adnoddau eu gweddu’n dda i anghenion dysgwyr ag ADY?
- A gaiff adnoddau arbenigol, er enghraifft offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), cymhorthion radio a systemau maes sain, eu defnyddio’n dda i alluogi dysgwyr ag ADY i fanteisio ar y cwricwlwm yn llawn?
- A oes gan yr ysgol hanes o ddarpariaeth gyllid briodol ar gyfer dysgwyr ag ADY?
- A all yr ysgol ddangos effaith neu werth ei phenderfyniadau gwario o ran ADY?
- A yw’r ysgol wedi’i haddasu’n ffisegol i ddiwallu anghenion dysgwyr yn briodol?
- A oes cyfleusterau newid priodol ar gyfer dysgwyr ag anableddau?

## Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

- A oes gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr dysgwyr ag ADY sy’n eu helpu i barhau â dysgu gartref?
- Pa mor effeithiol y mae’r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni

a gofalwyr dysgwyr ag ADY? A yw rhieni a gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan yr ysgol?
- A gaiff rhieni a gofalwyr eu helpu i ddeall gweithdrefnau, yn cynnwys gweithdrefnau asesu statudol, ac a allant gael mynediad at gofnodion ac adroddiadau yn ymwneud â'u plant?
- A yw'r ysgol yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu gweld ystod o wybodaeth gyfredol am anghenion neu anawsterau eu plant?

**Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

- Pa mor dda y mae arweinwyr, ar bob lefel, yn deall beth sydd angen ei wneud i wella deilliannau a chynnydd ar gyfer dysgwyr ag ADY?
- A yw cynlluniau'n cynnwys ffocws digonol ar raddfa amser a chost gwneud addasiadau addas i'r amgylchedd ffisegol?
- Sut mae'r ysgol yn gwybod os yw'r CydADY yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol?
- I ba raddau y caiff dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol eu cynnwys mewn sicrhau ansawdd eu gwaith?
- A oes gan yr ysgol hanes cryf o ran gwella deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY? Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod targedau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn briodol o heriol, fel bod y dysgwyr hyn yn cyrraedd y safonau uchaf y maent yn abl i'w cyflawni?
- I ba raddau y mae'r CydADY yn rhannu ei wybodaeth gyda staff, a beth fu effaith hyn?
- Sut mae'r ysgol yn cynnwys barn dysgwyr ag ADY a'u rhieni a gofalwyr yn ei phrosesau hunanwerthuso?

**Dysgu proffesiynol**

- Sut mae'r ysgol wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pob aelod o staff o ran dysgwyr ag ADY?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd a gwybodaeth staff arbenigol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr?
- A oes gan yr ysgol hanes cryf o gefnogi datblygiad proffesiynol staff cymorth arbenigol?
- A yw staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol i ddeall diwygio ADY?

**Cyfathrebu amgen ac estynedig (AAC)**

Mae'r term AAC yn cyfeirio at y gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio gan bobl â phroblemau cyfathrebu sylweddol i gefnogi neu ddisodli cyfathrebu ar lafar. Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd helaeth o AAC. Fodd bynnag, gallai fod angen i ddysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth sy'n mynychu darpariaeth brif ffrwd ddefnyddio dulliau AAC hefyd.

Mae dulliau'n cynnwys:

- ystumiau
- arwyddion
- symbolau

- byrddau cyfathrebu
- gwrthrychau cyfeirio
- defnyddio technoleg, e.e. Cymhorthion Cyfathrebu Allbwn Llais (VOCAs), technoleg llygad-syllu

Dylid nodi nad ydym yn argymell nac yn cymeradwyo unrhyw ddull cyfathrebu penodol.

**Cyfathrebu cyflawn**

Gallai ysgolion fabwysiadu dull ‘Cyfathrebu Cyflawn’, ble bydd dysgwyr yn cael eu haddysgu i gyfathrebu gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau sy’n cefnogi ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Er enghraifft, gallai dysgwr ddefnyddio symbolau ac arwyddion, yn ogystal ag ystumio a lleferydd sylfaenol.

**Darpariaeth Gymraeg**

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr ystyried p’un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg; bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus, yn hytrach na phenderfyniad untro. Os byddant yn gwneud hyn, rhaid dogfennu hyn yn y CDU, a rhaid cymryd ‘yr holl gamau rhesymol’ i sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg. Mae mecanwaith wedi’i gynnwys yn y Ddeddf i ddileu, trwy reoliadau, prawf yr ‘holl gamau rhesymol’, fel bod y dyletswyddau i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn ddiamod dros gyfnod.

**Symudiadau wedi’u rheoli**

Mae symudiad wedi’i reoli yn golygu cynllun i drosglwyddo dysgwr yn ofalus o un ysgol i un arall.

Mae’n galluogi plentyn neu berson ifanc i symud ymlaen i raglen neu leoliad newydd mewn ffordd sy’n dderbyniol i’r holl bartïon priodol, yn enwedig y dysgwr. Mae’r broses wedi’i chynllunio i helpu’r dysgwr i symud ymlaen a dechrau o’r newydd.

Mae tystiolaeth yn awgrymu, er mwyn i symudiad wedi’i reoli fod yn llwyddiannus, bod angen rhoi ystyriaeth lawn i ymgysylltu’n llawn â’r dysgwr, y rhieni, y gofalwyr a’r ysgolion, a bod angen mynd i’r afael â materion cludiant.

Gellir cael mwy o wybodaeth yng nghylchlythyr 096/2011 Llywodraeth Cymru: Defnydd effeithiol o symudiadau wedi’u rheoli. Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol ac yn ein hastudiaeth thematig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion (Mawrth 2018)

# Atodiad 1: Trosolwg o ddeddfwriaeth ADY

Disodlodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 y ddeddfwriaeth flaenorol ynghylch ADY ac asesu pobl ifanc ag anawsterau ac / neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

## Amcanion y Ddeddf

1. •Darparu darn unedig o ddeddfwriaeth i gynorthwyo plant a phobl ifanc 0-25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darparwyr a sefydliadau addysg bellach;
2. •Hyrwyddo proses asesu, gynllunio a monitro integredig a chydweithredol, sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
3. •Chael system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

**Cefnogir yr amcanion gan yr 11 nod canlynol:**

### 1. Cyflwyno'r term 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'

Disodlodd y Ddeddf y termau 'anghenion addysgol arbennig (AAA)' ac 'anawsterau ac / neu anableddau dysgu (AAD)' â'r term 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'.

### 2. Ystod oedran 0 i 25

Mae un system ddeddfwriaethol yn ymwneud â'r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY.

### 3. Cynllun unedig

Creodd y Ddeddf un cynllun statudol (y CDU) i ddisodli'r amrywiaeth flaenorol o gynlluniau AAA neu AAD statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach.

### 4. Cyfranogiad cynyddol plant a phobl ifanc

Mynnodd y Ddeddf y dylid bob amser ystyried barn dysgwyr fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â barn eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn ystyried y broses gynllunio yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda nhw yn hytrach nag iddyn nhw.

### 5. Dyheadau uchel a deilliannau gwell

Bydd pwyslais CDUau ar drefnu darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gwirioneddol sy'n cyfrannu'n ystyrlon at y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cyflawni ei lawn botensial.

6. **System symlach a llai gwrthwynebol**

   Dylai'r broses o lunio a diwygio CDU fod yn symlach o lawer na'r broses flaenorol o ran datganiadau o AAA.

7. **Cydweithio cynyddol**

   Mae'r system newydd yn annog cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, a bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

8. **Osgoi anghytundebau a datrys anghytundeb yn gynharach**

   Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau, lle mae anghytundeb ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth y mae'n ei chynnwys, y caiff y mater ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol posibl.

9. **Hawliau apelio clir a chyson**

   Lle na ellir datrys anghytundebau ynghylch cynnwys CDU ar y lefel leol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU (a'u rhieni a gofalwyr yn achos y rhai sydd o dan 16 oed) hawl i apelio i dribiwnlys.

10. **Y Cod ADY**

    Mae'r Cod ADY yn darparu set o baramedrau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithlon, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, weithredu oddi mewn iddynt.

11. **System ddwyieithog**

    Mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhaid i wasanaethau ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg. Os felly, rhaid eu dogfennu yn y CDU, a rhaid cymryd 'yr holl gamau rhesymol' i sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg.

## Atodiad 2: Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

Mae CDUau yn gynlluniau statudol ar gyfer dysgwyr ag ADY sy'n cynnwys disgrifiad o ADY unigolyn, disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu amgen sydd ei hangen ar gyfer anhawster neu anabledd dysgu dysgwr, ac unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu wedi'i awdurdodi gan, neu o dan, Ran 2 y Ddeddf ADY. Yn ystod cyfnod cyflwyno graddol y Ddeddf ADY newydd, efallai bydd gan rai dysgwyr ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) o hyd.

Bydd gan y plant hynny sy'n derbyn gofal gynlluniau ychydig yn wahanol sy'n ffurfio rhan o'u cynllun addysg personol (CAP).

Hefyd, bydd CDUau yn disodli datganiadau o AAA a chynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer dysgwyr a gynorthwyir ar hyn o bryd trwy Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy. Mae cymhwyso'r profion i sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan yr oedran gorfodol ADY ychydig yn wahanol i'r rhai sydd o oedran ysgol gorfodol. Ceir mwy o wybodaeth am leoliadau nas cynhelir yn Atodiad 6.

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth werthuso'r cynlluniau hyn:

- A yw'r cynllun yn cynnwys proffil y person ifanc?
- A oes gan y cynllun linell amser o ddigwyddiadau allweddol ar gyfer y person ifanc?
- A yw'r cynllun yn cynnwys manylion am anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr?
- A yw'r cynllun yn cynnwys manylion penodol am y ddarpariaeth sydd ei hangen i gynorthwyo'r plentyn?
- A yw'r cynllun yn nodi strategaethau y dylai staff eu defnyddio yn glir?
- Sut mae'r ysgol yn gwybod os yw staff yn gyson wrth ddefnyddio'r strategaethau a nodwyd?
- A yw'r cynllun yn cynnwys targedau sy'n fesuradwy ac yn briodol i'r anhawster a nodwyd?
- A yw targedau yn berthnasol ac yn ddigon heriol?
- A oes gan y cynllun ddyddiad dechrau ac adolygu?
- A yw'r cynllun yn cynnwys barn y rhieni a'r gofalwyr a'r dysgwr?
- A oes tystiolaeth glir o gynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud o ran y targedau ar gyfer gwella?
- A yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth ddiweddar am asesiadau a chyflawniad?
- A gaiff dysgwyr eu cynnwys mewn gosod eu targedau ac adolygu eu cynnydd?
- A gaiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys mewn gosod ac adolygu targedau a chynnydd?
- A yw pob un o'r staff sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY yn ymwybodol o'r targedau a'r gweithdrefnau monitro ar gyfer unigolion?
- A gafodd y cynllun ei greu trwy broses arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn?
- A yw'r cynllun yn dangos pwy sy'n gyfrifol am bob amcan?
- A yw'r cynllun yn rhoi manylion i gefnogi a chynllunio trosglwyddiadau yn y dyfodol?
- A yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am deithio i'r ysgol? (lle bydd angen)

- Dylai arolygwyr sicrhau bod y darparwr yn ymwybodol o'r dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol o ran plant mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.
- I gael mwy o fanylion am gynnwys angenrheidiol CDU, gweler Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

# Atodiad 3: Darpariaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd

## Categori 1: Dosbarthiadau arbenigol a ariennir gan awdurdodau lleol

Yn aml, cyfeirir at y dosbarthiadau hyn fel dosbarthiadau / canolfannau cymorth dysgu, cyfleusterau addysgu estynedig neu ganolfannau adnoddau dysgu. Cânt eu hariannu gan yr awdurdod lleol (ALl) a'u lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r ALl, mewn cysylltiad â'r ysgol, yn rhoi dysgwyr yn y dosbarthiadau hyn, fel arfer trwy system banel. Gallai dysgwyr sy'n mynychu'r dosbarth fod yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r dysgwyr fel arfer ar gofrestr yr ysgol.

Darperir dosbarthiadau arbenigol ALl ar gyfer plant sydd ag anghenion na ellir eu diwallu fel arfer mewn dosbarth prif ffrwd. Fel arfer, bydd gan ddysgwyr sy'n mynychu dosbarth arbenigol ALl angen addysgol arbennig, er enghraifft awtistiaeth, anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, anawsterau dysgu difrifol, amhariad ar y golwg neu amhariad ar y clyw, neu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Bydd dysgwyr yn elwa ar lefelau staffio uwch nag yn y brif ffrwd, a bydd staff fel arfer yn meddu ar gymwysterau, gwybodaeth neu brofiad arbenigol mewn gweithio gyda'r anghenion nodedig sydd gan ddysgwyr. Yn dibynnu ar eu hangen, gallai rhai dysgwyr gael eu haddysgu bron yn gyfan gwbl yn y dosbarth arbenigol, a gallai dysgwyr eraill elwa ar gael eu haddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

### Arolygu dosbarthiadau arbenigol a ariennir gan awdurdodau lleol

Os oes un neu fwy o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarth arbenigol ar gofrestr yr ysgol, byddwn yn arolygu'r ddarpariaeth fel rhan o'r ysgol brif ffrwd. Mae'r sbardunau a ddarperir yn erbyn y tri maes arolygu'r un mor berthnasol i ddosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- Faint y mae dysgwyr yn y dosbarth arbenigol yn elwa ar brofiadau dysgu ar draws yr ysgol gyfan?
- Pa mor briodol yw'r cwricwlwm a gynigir yn y dosbarth arbenigol i ddiwallu anghenion pob un o'r dysgwyr?
- Pa mor dda y defnyddir yr arbenigedd yn y dosbarth arbenigol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY ar draws yr ysgol?

| | |
|---|---|
| **MA1** | • Pa gynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud o gymharu â'u mannau cychwyn a'r targedau yn eu CDU? Sut rydych chi'n gwybod?<br>• I ba raddau y mae targedau CDU unigol yn berthnasol ac yn heriol?<br>• A yw dysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd a wnânt?<br>• Pa mor dda y mae dysgwyr yn cymhwyso gwybodaeth a medrau i sefyllfaoedd newydd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt?<br>• I ba raddau y mae'r addysgu yn diwallu anghenion y dysgwyr? Sut rydych chi'n gwybod?<br>• Sut mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr?<br>• Beth yw'r cryfderau presennol a'r meysydd i'w datblygu o ran cynnig y cwricwlwm? |

| | |
|---|---|
| | • Sut mae'r cwricwlwm yn adeiladu a datblygu medrau ar gyfer y cam nesaf neu ar gyfer dysgu/bywyd?<br>• Sut ydych chi'n gwybod bod strategaethau addysgu yn addas o ran diwallu anghenion dysgwyr?<br>• Pa mor effeithiol yw staff cymorth o ran galluogi dysgwyr i wneud cynnydd?<br>• Pa mor dda y mae targedau unigol yn llywio cynllunio?<br>• Sut ydych chi'n gwybod os yw staff cymorth yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at brofiad dysgu dysgwyr?<br>• Pa asesiadau ydych chi'n eu defnyddio i olrhain cynnydd dysgwyr?<br>• Sut ydych chi'n gwybod bod asesu yn annog dysgwyr i wella a gwneud cynnydd?<br>• Pa drefniadau sydd ar waith i adrodd i rieni?<br>• A yw adroddiadau i rieni yn cysylltu'n ddigon da â thargedau unigol? |
| **MA2** | • Beth fyddai'r ysgol yn eu disgrifio fel cryfderau a meysydd i'w datblygu o ran lles dysgwyr?<br>• Sut mae cyfraddau presenoldeb a gwahardd yn cymharu â'u cymheiriaid prif ffrwd?<br>• I ba raddau y mae dysgwyr yn rhan o benderfyniadau am eu dysgu ac a oes ganddynt rolau â chyfrifoldeb yn yr ysgol?<br>• Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod staff wedi'u briffio'n addas ar anghenion dysgwyr?<br>• Pa drefniadau sydd ar waith sy'n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol?<br>• I ba raddau y mae dysgwyr yn cael eu hannog i ddeall pobl eraill a bod yn oddefgar tuag atynt?<br>• Pa mor effeithiol yw staff cymorth a sut ydych chi'n gwybod?<br>• Pa mor effeithiol yw'r cysylltiadau rhwng y dosbarth arbenigol ac asiantaethau allanol, e.e. gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd a swyddogion awdurdodau lleol?<br>• Sut rydych chi'n sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol<br>• yn cael ei hadolygu'n barhaus a'i bod yn briodol i ddysgwyr?<br>• Pa mor dda y mae dysgwyr yn cael eu cefnogi wrth gynllunio eu cam dysgu nesaf?<br>• Pa drefniadau sydd ar waith os bydd angen i chi ddefnyddio ymyriadau cyfyngol? |
| **MA3** | • Pa mor effeithiol yw'r cysylltiadau rhwng arweinyddiaeth y dosbarth(iadau) arbenigol a'r ysgol?<br>• I ba raddau y mae llywodraethwyr ysgol yn ymwybodol o ddarpariaeth y dosbarth arbenigol?<br>• A yw llywodraethwyr yn cael diweddariadau rheolaidd am y ddarpariaeth yn yr ysgol?<br>• A oes llywodraethwr wedi'i enwi ar gyfer y ddarpariaeth? Os felly, beth yw ei rôl?<br>• I ba raddau y mae hunanwerthuso a chynllunio'r ysgol ar gyfer gwella yn cyfrif yn briodol am y dosbarth(iadau) arbenigol. |

| | |
|---|---|
| | • Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dosbarth(iadau) arbenigol?<br>• Pa gymorth proffesiynol, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, ydych chi wedi'i gael i ymgymryd â'ch rôl?<br>• I ba raddau y mae staff yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol? A allwch chi ddarparu enghreifftiau o sut mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth a'r deilliannau i ddysgwyr?<br>• Pa mor dda yw'r adnoddau ar gyfer darpariaeth y dosbarth arbenigol?<br>• Sut a phryd y gwnaeth yr awdurdod lleol adolygu'r ddarpariaeth a beth oedd canlyniad yr adolygiad? |

**Categori 2: Adnodd addysgu ychwanegol sy'n rhan o ysgol arbennig ond wedi'i leoli ar safle'r ysgol brif ffrwd. Mae gan ddysgwyr gofrestriad deuol**

Dylech arolygu'r deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr yn yr adnodd ychwanegol. Yn ysgrifenedig, dylech barhau i adrodd ar berfformiad ysgol gyfan, yn cynnwys y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, lle bo modd, dylech hefyd adrodd yn fras ar y cynnydd a wnaed gan y dysgwyr hyn er mwyn gallu ystyried eu cynnydd yn yr arolygiad o'r ysgol arbennig. Fodd bynnag, ni ddylech werthuso'r ddarpariaeth addysgol na'r arweinyddiaeth, oni bai fod pennaeth yr ysgol brif ffrwd yn cyflogi ac yn rheoli'r athrawon yn yr adnodd addysgu ychwanegol. Bydd darpariaeth ac arweinyddiaeth yn cael eu harolygu fel rhan o arolygiad o'r ysgol arbennig.

**Categori 3: Adnodd addysgu ychwanegol sy'n rhan o ysgol arbennig ond wedi'i leoli ar safle'r ysgol brif ffrwd. Nid oes gan ddysgwyr gofrestriad deuol – maent ar gofrestr yr ysgol arbennig. Caiff staff eu cyflogi gan yr ysgol arbennig**

Ni ddylech arolygu'r math hwn o ddarpariaeth fel rhan o'r ysgol brif ffrwd. Bydd yr arolygiad o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gynnal fel rhan o'r arolygiad o'r ysgol arbennig. Gallech ystyried p'un a gaiff presenoldeb yr adnodd addysgu ychwanegol unrhyw effaith.

**Categori 4: Adnodd addysgu ychwanegol, sydd wedi'i leoli ar safle ysgol brif ffrwd, ond wedi'i gofrestru fel UCD**

Ni ddylech arolygu'r UCD hon fel rhan o arolygiad yr ysgol, gan y bydd arolygiad ar wahân yn cael ei gynnal. Gallech ystyried p'un a yw presenoldeb yr adnodd addysgu ychwanegol yn cael unrhyw effaith gadarnhaol o fewn yr ysgol brif ffrwd, fel y byddech ar gyfer unrhyw bartneriaethau eraill. Hefyd, gallech arolygu'r ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn ystod yr arolygiad o'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, os oes gan rai dysgwyr gofrestriad deuol, mae'r egwyddorion yn berthnasol, fel yng nghategori 2 uchod.

**Categori 5: Unrhyw adnodd addysgu ychwanegol arall sydd ar safle'r ysgol ond nid yw'n gweddu i gategorïau 1-4**

Ni ddylech arolygu'r ddarpariaeth hon. Dylech roi gwybod i'r Cydlynydd Arolygu, drwy ffonio 02920 446446, am fodolaeth darpariaeth adnoddau sy'n disgyn i gategori 5. Gallai'r ddarpariaeth hon gynnwys y nodweddion canlynol:

- Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trefniadau cwricwlwm amgen nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr ysgol.
- Mae'r awdurdod lleol yn ariannu a rheoli'r ddarpariaeth yn uniongyrchol.
- Mae'r awdurdod lleol yn ariannu ysgolion allanol i gynnal y ddarpariaeth.

## Atodiad 4: ADY mewn lleoliadau nas cynhelir

### Sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY.

Mae cymhwyso'r profion i sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY ychydig yn wahanol i'r rhai sydd o oedran ysgol gorfodol.

Y prawf cyntaf o hyd yw p'un a oes gan y plentyn anhawster neu anabledd dysgu, ond mae ystyr hynny ychydig yn wahanol. Mae ynglŷn â ph'un a yw'r plentyn, pan fydd o oedran ysgol gorfodol, yn debygol o gael y canlynol, neu byddai ganddo'r canlynol pe na bai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei threfnu:

i. cryn dipyn yn fwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oedran, neu

ii. anabledd (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n atal neu'n rhwystro'r plentyn rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir.

Mae'r ail brawf hefyd yr un fath â'r prawf ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc, sef p'un a oes angen darpariaeth ddysgu amgen ar gyfer yr anhawster neu'r anabledd dysgu. Fodd bynnag, ar gyfer plant o dan dair oed, mae darpariaeth ddysgu amgen yn golygu darpariaeth addysgol o unrhyw fath. Ar gyfer y rhai sy'n 3 oed ac yn hŷn, mae darpariaeth ddysgu amgen yn golygu'r un fath â darpariaeth ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc (fel yr amlinellir uchod). Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu amgen ar gyfer plant o dan dair oed ychydig yn wahanol i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r plant hyn mewn oedran ble mae addysg a gynhelir ar gael fel mater o drefn.

Gall darpariaeth ddysgu amgen ar gyfer y rhai o dan dair oed fod ar lawer o ffurfiau; er enghraifft, gwaith grŵp neu gymorth unigol – ble mae'n ddarpariaeth addysgol o unrhyw fath. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys darpariaeth addysgol mewn Dechrau'n Deg neu gymorth iechyd, corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd arbenigol. Gellir cynnal hyn mewn lleoliad addysg neu yn rhywle arall.

### ADY a'r llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoledig nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser.

Mae angen i arolygwyr adrodd ar effeithiolrwydd darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol y lleoliad bron ym mhob un o'r chwe thema. Fodd bynnag, bydd hyn yn bennaf fel rhan o Thema 3 'Gofal a datblygiad'.

Cyfrifoldeb arolygwyr Estyn ac AGC yw casglu tystiolaeth i gefnogi gwerthuso effeithiolrwydd darpariaeth ADY y lleoliad ar gyfer yr holl blant rhwng 0 a 12 a allai fynychu'r lleoliad. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth ategol o ystod o ffynonellau cyn llunio barn ar hyn.

Yn adran 2.1 **'Pa mor dda y mae plant yn caffael medrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu?'**, dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd darpariaeth ADY y lleoliad trwy ystyried:

- a yw plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol?

Yn adran **3.3 'Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol?'**, dylai arolygwyr ystyried:

- y graddau y mae'r lleoliad yn cynnig mynediad llawn at bob maes dysgu i blant ag ADY
- pa mor dda y mae'r lleoliad yn nodi, yn asesu ac yn ymateb i anghenion unigol plant
- pa mor dda y mae'r lleoliad yn integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag ADY, fel eu bod yn gwneud cynnydd da yn unol â'u cam datblygu
- y graddau y mae ymarferwyr yn deall ac yn ymateb i anghenion unigol
- pa mor effeithiol y mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd yn canolbwyntio ar unigolion o gynnydd plant sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr a'r holl asiantaethau niferus perthnasol
- defnyddio gwasanaethau arbenigol, fel Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cludo a chymdeithasol, a'u cyfraniad

Yn adran **4.1 'Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion plant?'**, dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu a chwarae i ddiwallu anghenion yr holl blant, yn cynnwys y rhai ag ADY

Yn adran **4.2 'Pa mor dda y mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant?'**, dylai arolygwyr ystyried:

- y graddau y mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac effaith anghenion dysgu ychwanegol ar ddatblygiad
- a oes ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, yn cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Yn adran **5.2 'Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd a defnydd y safle?'**, dylai arolygwyr ystyried:

- y graddau y mae'r holl blant ag ADY yn cael yr un cyfle i fanteisio ar gyfleusterau, adnoddau a gweithgareddau'r lleoliad
- a oes digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion plant ag ADY

**Yn adran 6.3 'Pa mor effeithiol y caiff staff ac adnoddau eu rheoli', dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd darpariaeth ADY y lleoliad trwy sicrhau:**

- bod digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a/neu brofiad priodol o weithio gyda phlant ifanc ag ADY a bod y rhain yn cael eu defnyddio'n briodol

Yn adran **6.4 'Pa mor effeithiol yw partneriaethau?'**, dylai arolygwyr ystyried:

- Pa mor glir yw'r lleoliad ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldebau i sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.
- Pa mor dda y mae'r lleoliad yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr, SAADYBC a phartneriaid eraill i gynorthwyo plant ag ADY.

**Cwestiynau ar gyfer yr arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir**

- Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad o'r cod ADY gorfodol a sut mae'n effeithio arnyn nhw?
- Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad fod gan eu hawdurdod lleol Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) dynodedig, ac a ydynt yn ymwybodol o'r modd y mae rôl y swyddog yn effeithio arnyn nhw?
- Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad o'r wybodaeth y mae'r ALl wedi'i rhannu â rhieni a gofalwyr ynghylch ADY, SAADYBC yr ALl a'r system ADY?
- A yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALl sy'n eu galluogi i helpu'r awdurdod lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau ADY o ran plentyn sydd ag ADY?
- A yw'r hyfforddiant wedi eu gwneud yn ymwybodol o'r egwyddorion sy'n ategu'r system ADY a'r modd y mae hyn yn effeithio arnyn nhw (dull yn seiliedig ar hawliau; nodi'n gynnar, ymyrraeth ac integreiddio; cydweithio ac integreiddio; addysg gynhwysol; system ddwyieithog)?
- A yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALl sy'n eu galluogi i ddeall y diffiniad o ADY a nodi p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY? (pa mor hyderus ydynt yn gwneud hynny?)
- Pa hyfforddiant a chymorth y mae'r lleoliad wedi'i gael i gynorthwyo'r awdurdod lleol i fodloni gofynion CDU?
- Pa hyfforddiant a chymorth y mae'r lleoliad wedi'i gael i gynorthwyo'r awdurdod lleol i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am bontio yn cael ei chynnwys yn y CDU pan fydd plentyn yn gadael y lleoliad?
- A yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALl sy'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o ystod eang yr anawsterau neu anableddau dysgu a gwmpesir gan y cod?
- A yw'r lleoliad yn ymwybodol y bydd angen i wasanaethau, yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir, ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu amgen ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg?

## Atodiad 5: Byrfoddau cyffredin

| | |
|---|---|
| **AAA** | Anghenion Addysgol Arbennig |
| **AAC** | Cyfathrebu Amgen ac Estynedig |
| **AAD** | Anawsterau ac / neu Anableddau Dysgu |
| **AB** | Addysg Bellach |
| **ADHD** | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| **ADP** | Anawsterau Dysgu Penodol |
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **ADD** | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio |
| **ADD** | Anawsterau Dysgu Difrifol |
| **ADDLl** | Anawsterau dysgu dwys a lluosog |
| **ALl** | Awdurdod lleol |
| **ASA** | Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth |
| **AYECh** | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol |
| **BILl** | Bwrdd Iechyd Lleol |
| **BSL** | Iaith Arwyddion Prydain |
| **CAIG** | Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal |
| **CAMHS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **CAP** | Cynllun Addysg Personol |
| **CAU** | Cynllun Addysg Unigol |
| **CCD** | Cynorthwyydd cymorth dysgu |
| **CDU** | Cynllun Datblygu Unigol |
| **CGIU** | Cynllun Gofal Iechyd Unigol |
| **CSA** | Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth |
| **CydAAA** | Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig |
| **CydADY** | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |

| | |
|---|---|
| **CYU** | Cynllun Ymddygiad Unigol |
| **EOTAS** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **PECS** | Picture Exchange Communication System ® |
| **SAA** | Swyddog Adolygu Annibynnol |
| **SAADYBC** | Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar |
| **SAB** | Sefydliad Addysg Bellach |
| **SSE** | Saesneg â chymorth arwyddion |
| **UCD** | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| **VOCA** | Cymhorthion Cyfathrebu Allbwn Llais |

## Atodiad 6: Arweiniad i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl

### Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu

- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw data ar gyrhaeddiad dysgu i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud o’u mannau cychwyn?
- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw data ar gyrhaeddiad ymddygiad i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn dangos gwelliant o’u mannau cychwyn?
- Erbyn iddynt adael yr ysgol, a yw dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn ennill ystod addas o gymwysterau sy’n cyfateb yn dda i’w hanghenion, eu diddordebau a’u galluoedd?
- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw nifer yr enghreifftiau o ymddygiad heriol, a’u difrifoldeb, yn gostwng?

**Pa mor dda y mae’r dysgwyr hyn…?**

- yn gallu cyflawni’r targedau cytunedig sydd wedi’u cynnwys yn eu cynlluniau unigol?
- yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu medrau cymdeithasol, hunan-barch a hunanhyder o’u mannau cychwyn?
- yn gallu gweithio gydag annibyniaeth gynyddol?
- yn cymhwyso’n gynyddol y wybodaeth a’r medrau maen nhw’n eu datblygu mewn sesiynau cymorth i sefyllfa’r dosbarth cyfan ac i fywyd ehangach yr ysgol?

**A yw athrawon…?**

- yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion a’u galluoedd?
- yn modelu ymddygiad priodol sy’n adlewyrchu disgwyliadau’r ystafell ddosbarth? A yw hyn yn parhau wrth wynebu her?
- yn meithrin perthnasoedd gwaith dibynadwy, empathig?
- yn darparu sicrwydd a sefydlogrwydd?
- yn adnabod cryfderau ac yn dangos bod dysgwyr yn werthfawr a’u bod o werth?
- yn gweithio’n effeithiol gyda staff cymorth a staff arbenigol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol?
- yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i wneud y mwyaf o ddysgu?
- yn sicrhau gwerthoedd a disgwyliadau clir a chyson i bob dysgwr?
- yn sicrhau bod disgwyliadau o ran ymddygiad da yn cael eu trosi’n glir yn gyfleoedd dysgu ac addysgu?
- yn sicrhau bod eu cynllunio yn cyfrif am anghenion a diddordebau’r dysgwyr?
- yn darparu dull hyblyg, wedi’i bersonoli, ar gyfer dysgu ac addysgu er mwyn diwallu anghenion a diddordebau’r dysgwyr?
- yn cynnal cymhelliad ac yn gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn gyson?
- yn datblygu medrau annibyniaeth a gwydnwch dysgwyr yn briodol?

- yn sicrhau nad yw anghenion penodol y dysgwr yn rhwystr rhag manteisio ar ystod eang o brofiadau dysgu?
- **A yw'r ysgol** yn sicrhau bod llwybrau dysgu unigol yn hyblyg, gydag ystod eang ac ystyrlon o brofiadau ysgogol sy'n briodol i anghenion a diddordebau'r dysgwyr?
- **A yw'r ysgol** yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer medrau bywyd mewn sefyllfaoedd go iawn?

**Gwahardd**

Wrth ystyried effeithiolrwydd yr ysgol o ran rheoli'r dysgwyr hyn a defnyddio gwahardd, mae'n bosibl y bydd arolygwyr am ystyried:

- A yw ysgolion yn defnyddio gwahardd yn unol â deddfwriaeth, arweiniad a'u polisïau eu hunain?
- A yw'r ysgol wedi ystyried dewisiadau yn lle gwahardd? Er enghraifft cymorth bugeiliol, cyfiawnder adferol, gwahardd mewnol neu symud wedi'i reoli.
- A yw gwaharddiadau am y cyfnod byrraf sy'n angenrheidiol? A yw'r ysgol yn parhau i ddarparu addysg trwy gydol cyfnodau'r gwaharddiad? A yw gwaith yn cael ei farcio?
- A yw cofnodion ar gyfer gwahardd yn dangos bod ymddygiadau a chanlyniadau tebyg yn cael eu hailadrodd? A yw'r ysgol yn addasu ei hymagwedd tuag at y disgybl oherwydd hyn?
- A yw'r ysgol yn ailintegreiddio dysgwyr yn llwyddiannus ar ôl cyfnodau o wahardd?
- A yw'r ysgol yn adolygu ei defnydd o wahardd? Beth mae'r adolygiadau hyn wedi'i ddangos? Er enghraifft, a ydynt yn datgelu patrymau yng nghyfraddau gwahardd y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r defnydd o wahardd dros gyfnod?
- A yw dysgwyr ag ADY wedi bod yn destun eu gwahardd? Pam? Beth oedd yr effaith?
- A yw plant sydd wedi cael profiad o ofal wedi bod yn destun gwahardd? Pam? Beth oedd yr effaith?
- A yw arferion gwahardd yn yr ysgol yn cadw dysgwyr yn ddiogel ac yn gwella ymddygiad yn effeithiol?

**Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

**A yw'r dysgwyr hyn cyflawni'r canlynol <u>yn gynyddol</u>…?**

- gwneud cynnydd wrth ddatblygu strategaethau i reoli eu hymddygiad mewn gwersi a'r tu hwnt, o'u mannau cychwyn?
- defnyddio strategaethau i reoli eu hemosiynau eu hunain yn ddiogel?
- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- dangos ystyriaeth tuag at ei gilydd ac i staff?
- dilyn cyfarwyddiadau gan staff?
- gallu gweithio'n effeithiol gyda'u cymheiriaid? Er enghraifft wrth ymgymryd â gwaith grŵp neu mewn cyd-destun chwaraeon.

- gwrando ar bobl eraill a chymryd rhan mewn deialog ystyrlon a phriodol gyda staff a chymheiriaid?
- gwneud cynnydd wrth ddatblygu'u medrau cymdeithasol?
- cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amdanynt eu hunain a'u dysgu?
- hyderus a dyfeisgar wrth weithio'n annibynnol?

**Ailintegreiddio**

Wrth arolygu lleoliadau lle mae dysgwyr wedi symud i UCDau, mae'n bosibl y bydd arolygwyr am ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol yw'r trefniadau pontio rhwng ysgolion ac UCDau?
- Pa mor dda mae dysgwyr yn ailintegreiddio i'r ysgol ar ôl mynd i'r UCD?
- A yw dysgwyr yn aros mewn darpariaeth UCD yn rhy hir?
- A yw'r ysgol yn gweithio gyda'r UCD i rannu arbenigedd?
- A yw'r ysgol yn rhannu gwybodaeth briodol â'r UCD ac yn cael gwybodaeth ganddi?
- A yw'r dysgwyr yn aros ar gofrestr yr ysgol wrth fynychu'r UCD?
- A yw ysgolion yn sicrhau eu bod yn gweithio gydag UCDau i sicrhau bod gofynion mewn CDUau (neu debyg) yn cael eu diwallu?
- A yw arweinwyr yn monitro cynnydd dysgwr ar y gofrestr sy'n mynd i UCDau?

- I ba raddau y mae'r ysgol yn llwyddo i nodi, deall a chefnogi materion emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl dysgwyr?
- A yw'r ysgol yn monitro a chofnodi pob enghraifft o ymddygiad heriol myfyrwyr i nodi patrymau a thueddiadau penodol yn ofalus?
- A yw'r ysgol yn defnyddio cysylltiadau effeithiol â theuluoedd a gwasanaethau cymorth eraill i gefnogi lles dysgwyr?
- Pa mor effeithiol yw'r rhaglen ymyrraeth a chymorth i fyfyrwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl?
- A yw cymorth ychwanegol yn targedu datblygiad medrau bywyd a meithrin annibyniaeth?
- A yw'r ysgol yn defnyddio targedau ystyrlon mewn CDUau yn effeithiol i wneud y mwyaf o gymorth a chynnydd?
- A yw'r ysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, ysgolion blaenorol ac arbenigwyr, i nodi anghenion dysgwyr a gwneud darpariaeth briodol?
- A yw'r ysgol yn rhoi gwybod i ddysgwyr a theuluoedd am gymorth proffesiynol a gwasanaethau arbenigol sydd ar gael? Er enghraifft, cwnsela neu wasanaethau iechyd meddwl.
- A yw'r ysgol yn cydnabod a gwobrwyo cyflawniad? A yw hyn yn cael ei wneud yn gyson ac yn deg?
- A yw cosbau'n cael eu defnyddio'n deg ac yn gyson? A ydynt yn briodol?
- A yw'r ysgol yn rhoi cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl ddatblygu eu dealltwriaeth o wneud dewisiadau ffordd o fyw da?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn caniatáu i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, a'u hannog i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw? A yw'r ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu arni?

- A gynrychiolir y dysgwyr hyn ar draws yr ysgol? Er enghraifft, mewn cyngor ysgol, clybiau a dramâu ysgol.
- A yw polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn cyfrif am lefel freguster uwch dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl ac yn sicrhau bod trefniadau i'r dysgwyr hyn yn briodol?
- A oes gan yr ysgol bolisi clir ar ddefnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol? A oes gan yr ysgol systemau priodol i gofnodi digwyddiadau? A yw staff yn dilyn y gweithdrefnau hyn yn drylwyr?

| **Maes arolygu 3: Arwain a Gwella** |
|---|

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- yn cyfleu gweledigaeth glir ac ethos o gynhwysiant ac amrywiaeth?
- yn gosod ffocws strategol priodol ar ddeilliannau a darpariaeth i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl?
- yn darparu polisïau addysgu a dysgu ac ymddygiad clir i'r ysgol gyfan, y mae'r staff yn eu deall a'u dilyn?
- yn sicrhau bod yr **holl** staff yn fedrus ac yn cael eu cefnogi, a bod ganddynt gyfleoedd rheolaidd am ddysgu proffesiynol mewn strategaethau methodoleg ystafell ddosbarth i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl?
- yn hwyluso hyfforddiant staff mewn meysydd perthnasol? Er enghraifft, trawma ac ymlyniad.
- yn sicrhau bod mentora / sefydlu athrawon newydd neu newydd gymhwyso yn cynnwys dulliau addysgu ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl? Neu hyfforddiant ar anghenion penodol dysgwyr yn yr ysgol?
- yn sicrhau cysylltiad effeithiol ag asiantaethau eraill i sicrhau bod cymorth ychwanegol yn diwallu anghenion dysgwyr?
- yn dyrannu digon o adnoddau, gan gynnwys staffio, i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl?
- yn dangos ymrwymiad i drefniadau "symudiadau wedi'u rheoli" yr awdurdod lleol, lle bo'n briodol?

## Atodiad 7: Arweiniad i ddysgwyr â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth

Gall y cwestiynau hyn fod yn ddefnyddiol hefyd wrth arolygu lleoliadau lle mae gan ddysgwyr anawsterau dysgu penodol (ADP).

### Maes arolygu 1: Addysgu a Dysgu

**Ystyriaethau cyffredinol am arfer effeithiol yr ystafell ddosbarth i ddisgyblion â CSA**

**A yw athrawon/staff cymorth…?**

- Yn defnyddio enw'r dysgwr i ennill sylw cyn rhoi cyfarwyddiadau?
- Yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau addas i gynnal cymhelliad a diddordeb ?
- Yn defnyddio iaith syml a chryno, gan osgoi idiomau, cyfarwyddiadau aml-gam ac esboniadau haenog?
- Yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn tasgau pâr a grŵp, gyda chymorth priodol?
- Yn torri tasgau'n ddarnau llai, wedi'u cyflwyno'n weledol, lle bo'n briodol?
- Yn caniatáu digon o amser prosesu i ddysgwyr brosesu ac ymateb?
- Yn hyrwyddo annibyniaeth gyda strwythur a systemau gwaith targedig?
- Cynnal diddordeb a chymhelliad trwy system wobrwyo?
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion? A ydynt yn gallu cynorthwyo â datblygu medrau a dealltwriaeth newydd? A ydynt yn datblygu medrau annibyniaeth disgyblion yn briodol? A oes gan staff cymorth ddigon o wybodaeth am y pwnc sy'n cael ei addysgu ac anghenion y disgyblion?
- Yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer effaith ac ysgogiad yr amgylchedd ar ddysgwyr?
- Yn gwneud disgwyliadau a rheolau yn glir, gan gynnwys yr ysgogiadau i gydymffurfio?
- Yn defnyddio ardaloedd diddordeb arbennig yn effeithiol i wella diddordeb a chynnydd? Gall ardal diddordeb arbennig i rywun â CSA fod yn rhywbeth fel dinosoriaid, 'Y Titanic', y gofod a'r bydysawd neu dechnolegau fel llechi neu blatfformau fideo ar-lein.
- Yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer diddordeb a chynnydd trwy dasgau sy'n cael eu gosod ar lefel briodol o her?
- Yn deall ac yn cynllunio ar gyfer gwahaniaethau synhwyraidd disgyblion â CSA?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr â CSA yn cael eu cynnwys yn ystyrlon mewn gweithgareddau cwricwlwm, dosbarth cyfan, grŵp a phâr prif ffrwd?

**Syniadau defnyddiol ar gyfer addasu adnoddau ac addysgu**

Yn aml, mae gan ddisgyblion â CSA gryfder o ran dysgu gweledol. Gall **adnoddau gweledol** fel amserlenni, systemau gwaith, rheolau pendant a chyfarwyddiadau helpu i gynnig sefydlogrwydd, hybu annibyniaeth a lleihau pryder sy'n gysylltiedig â thasgau gwaith, newid a phontio.

Mae meddylfryd cyfyngedig, ailadroddus ac anhyblyg yn rhan o'r meini prawf diagnostig ar gyfer CSA. Felly, mae dull ysgogi estynedig, fel ysgogwyr a gyflwynir yn

weledol, pethau sy'n tynnu sylw a gwobrau, yn aml yn effeithiol. Mae '**amser dewis' neu 'amser aur'** yn rhoi nod penodol i ddysgwyr ei gyflawni.

Weithiau, mae **egwyl symud** yn helpu disgyblion â CSA i leihau'r pryder sy'n gysylltiedig ag ystafell ddosbarth brysur, ailhoelio sylw ac ymdawelu. Gall cyfnod byr o ymhél ag amgylchedd wahanol neu wneud tasg wahanol helpu i gyflawni cyflwr lle mae disgyblion yn barod i ddysgu.

Weithiau, mae disgyblion â CSA yn ymateb yn ffafriol i allu cael at **'degan ffidlan'** neu rywbeth i'w ddal i'w helpu i ganolbwyntio a hoelio sylw. Gall plastisin neu rywbeth cyffyrddadwy bach helpu disgyblion i ganolbwyntio a rheoleiddio'u hunain, yn enwedig pan fydd angen eistedd neu wrando ar gyfarwyddyd gan oedolyn.

Mae **dadansoddi tasg** neu gynllunio adnoddau yn helpu dysgwyr â CSA i fanteisio ar dasgau sydd angen gweithredu aml-gam.  Yn yr un modd â fformat rysáit coginio er enghraifft, sef, 'Rydw i angen …', 'yn gyntaf…', 'yna…', 'nawr…', 'wedyn…', 'yn olaf…' ac 'nawr gallaf i …', gall hyn helpu disgyblion i ddatblygu annibyniaeth mewn tasgau a pheidio â dibynnu ar anogaeth gan oedolion.

Yn aml, mae dysgwyr â CSA yn cael trafferth deall a chyffredinoli rheolau cymdeithasol. Mae nifer fach o reolau ymddygiad **pendant**, neu baramedrau eraill, yn rhoi diffiniad i ffiniau cymdeithasol amwys, weithiau.

Mae rhoi dysgwyr â CSA, y mae eu sylw'n crwydro, i eistedd wrth neu ger blaen yr ystafell, a chyfeirio cyfarwyddiadau neu geisiadau **gan ddefnyddio'u henw**, yn sicrhau bod dysgwyr yn dirnad y wybodaeth.

Yn aml, bydd lefelau pryder dysgwyr â CSA yn uwch. Gall olrhain heriau a wynebir gan ddefnyddio model **rhagflaenol/ ymddygiad/ canlyniad** helpu staff i adnabod amseroedd y dydd, amgylchedd, tasgau, dillad neu dywydd problemus, neu unrhyw ffactorau eraill a all gyfrannu at heriau y mae dysgwyr eu hunain yn methu eu mynegi.

**Ystyriaethau cyffredinol am ddeilliannau i ddysgwyr â CSA.**

**A yw disgyblion…?**

- Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau staff gyda'r adnoddau priodol?
- Yn datblygu eu medrau, gan gynnwys gallu gweithio gyda mwy o annibyniaeth, yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd?
- Yn datblygu eu hyder ac yn dod yn ddyfeisgar wrth gefnogi eu dysgu eu hunain?
- Yn gallu cymryd rhan mewn deialog ystyrlon gyda staff a disgyblion eraill yn unol â'u hanghenion cyfathrebu?
- Yn gallu nodi os ydynt wedi cyflawni eu hamcanion dysgu?
- Yn datblygu'r gallu i gyfleu eu hanghenion a mynegi safbwyntiau rhydd neu safbwyntiau o amrywiaeth o ddewisiadau?
- Yn datblygu medrau cymdeithasol o fannau cychwyn unigol?

**Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

- A yw unrhyw gymorth ychwanegol yn targedu datblygiad medrau bywyd a meithrin annibyniaeth?
- A yw'r ysgol wedi cyfrif yn ddigon da am anghenion disgyblion wrth addasu i'r amgylchedd ffisegol?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr â CSA yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn yn yr agweddau cymdeithasol ehangach ar fywyd yr ysgol?
- A yw'r ysgol yn defnyddio targedau mewn CAUau, CYUau, CDUau neu ddatganiadau AAA i wneud y mwyaf o gymorth a chynnydd?
- A yw data cyrhaeddiad i ddysgwyr â CSA yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud? Pa mor dda y mae dysgwyr â CSA yn gwneud cynnydd o gymharu â'u mannau cychwyn gydag amser?
- A yw targedau mewn CAUau, CYUau a CDUau yn berthnasol ac yn briodol i ddysgwyr â CSA?
- A yw cyfarfodydd adolygiadau blynyddol i ddisgyblion â datganiad o AAA yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol? A yw dysgwyr a rhieni yn cael eu hannog i fanteisio ar ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cymryd rhan yn llawn yn yr adolygiadau hyn?
- A yw'r ysgol yn darparu lefel briodol o her yn y cwricwlwm a her gymdeithasol i ddysgwyr â CSA?
- A yw mesurau priodol yn cael eu nodi mewn asesiadau risg i sicrhau nad yw disgyblion â CSA dan anfantais? Er enghraifft, cael eu cynnwys mewn ymweliadau oddi ar y safle neu weithdrefnau trin yn gadarnhaol?
- A roddir ffocws priodol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol ac annibyniaeth i wneud y mwyaf o fedrau dysgwyr â CSA?

Gall **amgylchedd isel ei ysgogiad** fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr â CSA. Gall cael ardal mewn ystafell ddosbarth neu ardal weithio sy'n llai prysur, gyda llai o wybodaeth weledol ddiangen, helpu dysgwyr â CSA i ganolbwyntio ar y dasg osod. Mewn ystafelloedd lle y mae llai o le rhydd, gall bwrdd mewn ardal dawelach o'r dosbarth, sy'n edrych i ffwrdd o ardal y gweithgarwch, er enghraifft, yn edrych tuag at wal wag, fod yn fuddiol.

Mae pryder yn sgil-gynnyrch cyffredin lefelau uchel o ryngweithio cymdeithasol, cyfathrebu, ceisiadau i fod yn hyblyg a disgwyliadau i weithio yn ôl agenda rhywun arall. Gall dysgwyr â CSA newid o fod yn ddigynnwrf i fod yn ofidus iawn yn gyflym iawn. Yn ôl pob tebyg, mae hyn o ganlyniad i bryder sylfaenol wrth ymdopi â gofynion amgylchedd llawn straen. Gall **gofod, ystafell neu ardal dawel y mae dysgwyr â CSA yn gwybod eu bod yn ddiogel** ganiatáu i ddysgwyr â CSA bwyllo a dychwelyd i ddysgu yn llwyddiannus iawn.

Gall **aelod allweddol o staff** sy'n adnabod yr unigolyn fod yn effeithiol wrth helpu'r dysgwr â CSA i deimlo'n ddiogel.

Os yw lefelau pryder dysgwyr â CSA wedi codi, gall eu rhoi i eistedd ger cefn yr ystafell neu'r drws fod yn effeithiol. Gall **system amser ymdawelu**, er enghraifft ar ffurf carden, leihau pryder ymhellach.

Mae'r gallu i **gyrraedd gwersi'n hwyr**, neu **adael gwersi'n gynnar** i osgoi amseroedd prysur mewn coridorau ac ystafelloedd cotiau yn gallu helpu dysgwyr â CSA i beidio â chynhyrfu.

Gall cyfleoedd am **sgwrs sydyn** ar ddechrau neu ddiwedd y dydd gydag aelod allweddol o'r staff helpu dysgwyr â CSA i integreiddio i'r amgylchedd newydd, datrys unrhyw bryderon sy'n gan y disgyblion neu roi terfyn ar faterion a all fod wedi digwydd yn ystod y dydd.

Mae rhai dysgwyr â CSA yn cael trafferth â chyswllt corfforol, neu chwaraeon sy'n golygu gwlychu neu fod yn fwdlyd. Gall **addasiadau rhesymol,** fel ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn y gampfa neu ar beiriannau ymarfer, alluogi disgyblion i gyflawni nodau trwy ddulliau eraill.

**Ystyriaethau cyffredinol am ddeilliannau effeithiol i ddisgyblion â CSA.**

**A yw disgyblion…?**

- Yn cael cyfleoedd rhesymol i ymdawelu a hunanreoleiddio os ydynt yn bryderus?
- Yn gallu ymgysylltu â strategaethau i gadw'n ddiogel neu adfer pwyll?
- Yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol a chyfleoedd llais y disgybl?
- Wedi'u cymell ac yn hoelio'u sylw ar dasgau o ganlyniad i feini prawf llwyddiant sydd wedi'u cyfleu'n glir?
- Yn gallu datblygu eu gallu dros gyfnod i hoelio sylw'n well ar dasgau?
- Yn gallu ymdopi â phontio rhwng tasgau, gwersi ac amgylcheddau?
- Yn gallu cynnal eu disgwyliadau uchel eu hunain neu bobl eraill am ymddygiad ac ymgysylltiad, yn unol â'u gallu?
- Yn gallu defnyddio amrywiaeth o ddulliau recordio mewn tasgau er mwyn cyflawni deilliannau gwersi?
- Yn gallu myfyrio ar eu cynnydd a'u datblygiad dros gyfnod?

**Syniadau defnyddiol ar gyfer hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu**

Gall defnyddio dull **cyfathrebu rheolaidd effeithiol gyda rhieni neu** ofalwyr helpu i gynnal lles llwyddiannus disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Gall safleoedd a rhaglenni ar-lein rhyngweithiol, sesiynau adborth wythnosol wyneb yn wynebu neu adborth wythnosol ysgrifenedig mewn llyfr rhwng y cartref a'r ysgol, helpu gyda chydweithio agos wrth gynllunio ar gyfer dysgwyr â CSA.

Gall ymgysylltiad dysgwyr eu hunain â dulliau **cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** eu helpu i gyfrannu at yr hyn sy'n bwysig a beth sy'n gweithio iddyn nhw, er enghraifft wrth greu proffil un dudalen neu fel rhan o'u CAU, CDU, neu mewn datganiad o AAA.

Gall caniatáu am **egwyliau cymdeithasol** ar adegau heb eu strwythuro, pan fydd gofynion cymdeithasol yn heriol i ddysgwyr â CSA, fod yn ddefnyddiol. Mae defnyddio

**'bydis'** i helpu dysgwyr â CSA i ddelio â disgwyliadau cenedlaethol amseroedd prysur heb eu strwythuro yn gallu bod yn fuddiol, hefyd.

Lle bo'n bosibl, gall caniatáu i ddysgwyr â CSA gael elfen o **ddewis yn eu dysgu** helpu gydag agweddau at ddysgu.  Mae gan lawer o ddysgwyr â CSA ddiddordebau arbennig, neu amrywiaeth o **ddiddordebau arbennig a all helpu i symbylu** a'u harwain at brofiadau dysgu cyfoethog sy'n hoelio sylw ac yn cynnal symbyliad.

## Maes arolygu 3:  Arwain a gwella

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- Yn gosod disgwyliadau uchel i staff sy'n addysgu dysgwyr â CSA?
- Yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr â CSA?
- Yn sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol ar CSA?
- Yn sicrhau, os yw dysgwyr wedi cael diagnosis o CSA, eu bod yn ceisio cyngor priodol, pan fo'n berthnasol, oddi wrth asiantaethau allanol fel timau athrawon arbenigol neu seicolegydd addysgol, yn unol â'u prosesau atgyfeirio, a bod unrhyw gyngor yn cael ei weithredu.
- Yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CSA yn yr ysgol ac ymhlith rhieni?

# Atodiad 8: Arweiniad ar ddefnyddio arferion cyfyngol

Defnyddir ataliaeth mewn ysgolion a cholegau ar draws Cymru. Nid yw'r arferion hyn yn berthnasol i ysgolion arbennig yn unig, felly mae'n bwysig bod AEF yn gwerthuso'r arferion hyn yn gyfartal ar draws pob lleoliad.

## Beth yw ataliaeth?

**Rhestr termau**

**Ataliaeth**

*Sylwch: term ymbarél yw hwn sy'n cyfeirio at y mathau niferus o ataliaeth sydd wedi'u rhestru isod. Weithiau, ystyrir ei fod yn cyfeirio at ataliaeth gweithredol corfforol yn unig.*

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) (Llywodraeth y DU, 2019) yn diffinio ataliaeth fel pan fydd rhywun "yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio, grym i sicrhau bod gweithred y mae'r unigolyn yn ei gwrthwynebu yn cael ei chyflawni, neu sy'n cyfyngu ar ryddid unigolyn p'un a ydynt yn gwrthwynebu ai peidio.

Mae ymchwiliad yr EHRC (EHRC, 2021) yn diffinio bod ataliaeth yn weithred a gyflawnir at ddiben cyfyngu ar symudiad, rhyddid a/neu ryddid unigolyn i weithredu'n annibynnol.

**Arferion cyfyngol**

*Neu: ymyriadau cyfyngol.*

Mae arferion cyfyngol yn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal pob rhag gwneud pethau maen nhw am eu gwneud neu sy'n eu hannog nhw i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallant fod yn amlwg iawn neu'n gynnil iawn. (Cyngor Gofal Cymru, 2016)

Mae'r term hwn yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfyngu pobl, gan gynnwys:

- ataliaeth gorfforol (gweithredol neu oddefol)
- ataliaeth gemegol
- ataliaeth amgylcheddol
- ataliaeth mecanyddol
- arwahaniad neu ynysu gorfodol
- gwahanu hirdymor
- gorfodaeth (LIC, 2021a)

**Ataliaeth Gorfforol Weithredol**

*Neu: ymyrraeth gorfforol, ataliaeth gorfforol, dal yn ddiogel, defnyddio grym rhesymol, dal yn glinigol.*

Dull ymarfer cyfyngol yw hwn pan fydd gweithredoedd neu symudiadau disgybl yn cael eu rheoli trwy ddefnyddio grym gweithredol. (EHRC, 2021)

**Ataliaeth Gorfforol Oddefol**

Dull ymarfer cyfyngol sy'n cynnwys cysylltiad corfforol uniongyrchol, ond nid grym gweithredol, i gyfyngu neu reoli symudiad neu weithredoedd disgybl. (EHRC, 2021) Er enghraifft, dal llaw rhywun gerllaw ffordd brysur.

**Ataliaeth Gemegol**

Pan geisir cymorth gan aelod staff â hyfforddiant meddygol i roi meddyginiaeth i reoli neu dawelu ymddygiad disgybl. Gellid cymryd y feddyginiaeth hon yn uniongyrchol i ymateb i'r ymddygiad heriol, neu fel rhan o arfer ddyddiol. (EHRC, 2021)

**Ataliaeth Fecanyddol**

Dyma'r defnydd o ddeunyddiau neu gyfarpar gan staff i gyfyngu ar allu'r disgybl i symud neu weithredu, fel sblintiau i'r breichiau, gwregysau neu gyffiau. Bydd hyn hefyd yn cynnwys mynd â chymorth ategol, fel cadair olwyn neu ffon gerdded, i atal disgybl rhag gallu symud yn annibynnol. (EHRC, 2021)

**Arwahaniad**

Dyma dynnu disgybl allan o ystafell ddosbarth neu sefyllfa arall yn yr ysgol yn erbyn ei ewyllys ac ynysu disgybl yn orfodol, ar wahân i ddisgyblion eraill, mewn man lle mae'n rhaid i ddisgybl aros ar wahân i ddisgyblion eraill (EHRC, 2021)

**Ataliaeth Amgylcheddol**

Ataliaeth amgylcheddol yw cyfyngu ar symudiadau rhywun heb eu cydsyniad penodol, gwybodus.

**Ymddygiad**

Y ffordd y mae unigolyn yn ymddwyn wrth ymateb i sefyllfa neu ysgogiad penodol. Nid yw'r gair 'ymddygiad' o reidrwydd yn golygu bod y gweithredoedd yn negyddol, nac yn ddigroeso. (Oxford Languages, 2021)

**Ymddygiadau sy'n herio**

*Neu: ymddygiad heriol.*

Ymddygiad annormal yn ddiwylliannol sydd mor ddwys, mor aml neu sy'n para mor hir fel bod diogelwch corfforol yr unigolyn neu eraill yn debygol o fod mewn perygl difrifol neu ymddygiad sy'n debygol o gyfyngu neu atal mynediad i gyfleusterau cymunedol cyffredin a'r defnydd ohonynt yn ddifrifol. (Emerson, 1995)

Gellir disgrifio bod ymddygiad yn heriol pan fydd mor ddwys, mor aml neu'n para mor hir fel ei fod yn bygwth ansawdd bywyd a/neu ddiogelwch corfforol yr unigolyn neu

eraill ac mae'n debygol o arwain at ymatebion sy'n gyfyngol, yn anghymhellol neu arwain at wahardd. (Royal College of Psychiatrists et al, 2007)

**Cyfyngiadau hollgynhwysol**

Diffyg mynediad cyffredinol i fannau neu weithgareddau penodol, sydd ar waith ni waeth beth yw anghenion unigolyn.

**Dad-ddwysáu**

Y weithred o symud o gyflwr llawn tensiwn i gyflwr gyda llai o densiwn. (Richards, 2007)

**Ataliaeth gorwedd wyneb i lawr**

Mae'r unigolyn sy'n destun ataliaeth gorfforol weithgar yn gorwedd wyneb i lawr. Dangoswyd bod cysylltiad rhwng hyn a chyfraddau anafu uchel ac, o dan rai amgylchiadau, marwolaeth o ganlyniad i fygu lleoliadol.

**Ataliaeth ar wastad y cefn**

Mae'r unigolyn sy'n destun ataliaeth gorfforol weithgar yn gorwedd wyneb i fyny.

**Adolygiad ar ôl y digwyddiad**

*Neu: ôl-friffio, myfyrdod.*

Adolygiad sy'n cynnwys dwy elfen ar wahân:

1. Cymorth ar ôl digwyddiad.
   Dyma'r cymorth sy'n cael ei gynnig ar unwaith i unigolyn sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad. Dylai gynnwys asesiad a thriniaeth o unrhyw anghenion meddygol a darparu cymorth emosiynol ar unwaith.

2. Myfyrdod ac adolygiad dysgu ar ôl digwyddiad.
   Dyma adolygiad lle nad oes neb yn bwrw bai, ond yn archwilio'r ffactorau a arweiniodd at ddefnyddio'r ataliaeth ac yn cytuno ar gamau gweithredu sy'n cynorthwyo ag atal digwyddiadau yn y dyfodol neu leihau effaith ac ymateb llai cyfyngol yn y dyfodol. (Restraint Reduction Network, 2019)

## Pryd mae'n bosibl cyfiawnhau ataliaeth?

Yng Nghymru a Lloegr, mae gan staff ysgol y pŵer i ddefnyddio 'grym rhesymol' i atal disgybl rhag:

- cyflawni unrhyw drosedd
- achosi anaf personol i, neu ddifrod i eiddo, unrhyw unigolyn (gan gynnwys ei hun)
- peryglu'r gallu i gynnal trefn dda a disgyblaeth yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol

Hefyd, gall staff ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer statudol i chwilio disgyblion am arfau, heb eu cydsyniad, pan fydd ganddynt seiliau rhesymol i amau hynny.

Gall staff hefyd wahanu neu ynysu disgybl mewn ardal ar wahân i ddisgyblion eraill os ydynt yn tarfu. Gellir defnyddio'r dull hwn fel cosb ddisgyblu. Mae gan ysgolion ddisgresiwn i benderfynu am ba hyd y byddant yn ynysu disgybl ac o dan ba amgylchiadau, gan arwain at amrywiaeth o arferion. Mae'n rhaid bod gan ysgolion bolisi ymddygiad a ddylai amlinellu beth yw'r arferion hyn.

Nid yw defnyddio'r canlynol fyth yn gyfreithlon:

- ataliaeth gyda'r bwriad o arteithio, bychanu, achosi trallod neu ddiraddio rhywun
- dull o atal rhywun sy'n giaidd neu'n ddiraddiol yn ei hanfod, neu sy'n gyfystyr ag arteithio
- grym corfforol fel dull cosbi
- ataliaeth sy'n bychanu'n ddiangen neu sydd, fel arall, yn achosi camdriniaeth neu amodau difrifol i berson sy'n giaidd neu'n ddiraddiol (EHRC, 2019)

**Tystiolaeth i'w hystyried mewn arolygiad:**

| **Tystiolaeth** | **Trywyddau ymholi posibl** |
|---|---|
| Cofnodion hyfforddiant staff | - A yw staff allweddol yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ac yn briodol?<br>- A yw hyfforddiant yn cadw staff a disgyblion yn ddiogel?<br>- A yw'r staff cywir yn cael eu hyfforddi?<br>- A yw'r hyfforddiant yn briodol i oedran / cyfnod / anghenion meddygol y disgyblion? |
| CDUau | - A yw disgyblion wedi'u heithrio'n feddygol rhag ataliaeth? A yw hyn yn cael ei ddilyn?<br>- A yw arferion cyfyngol yn rhwystro cynnydd yn erbyn amcanion y CDU?<br>- A yw disgyblion sy'n destun arferion cyfyngol yn cymryd rhan yn y broses benderfynu, neu ymarfer seiliedig ar yr unigolyn, pan mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio arnyn nhw? |
| Arsylwi a thrafodaethau | - A oes ymateb cyson i ymddygiadau sy'n herio?<br>- A yw staff yn dilyn cynlluniau ymddygiad a thrin cadarnhaol?<br>- A yw'r cynlluniau hyn yn ddefnyddiol?<br>- A oes gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr disgyblion sy'n destun arferion cyfyngol sy'n helpu gyda pharhad gartref? |
| Cofnodion ataliaeth | - A ydynt yn bodloni'r gofynion ym mholisi'r ysgol ei hun?<br>- A ydynt yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol?<br>- A oes proses ar gyfer goruchwylio'r cofnodion hyn? |


| | |
|---|---|
| | - A yw arweinwyr yn gwirio cyffredinrwydd ataliaeth ac a oes unrhyw dueddiadau? Yn enwedig wrth ystyried nodweddion gwarchodedig.<br>- A yw enghreifftiau o ataliaeth yn cael eu holrhain ac a yw ymddygiad yn gwella dros gyfnod? |
| Cadw at bolisi'r ysgol | - A yw staff yn ymwybodol o bolisïau yn y maes hwn?<br>- A yw polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson? |
| Defnyddio 'mannau tawel' | - A yw'r rhain yn cael eu defnyddio fel cosb?<br>- A oes paneli gwylio ar y drysau? |
| Cymorth ar ôl digwyddiad | - Beth sydd ar waith ar gyfer staff? A disgyblion?<br>- Pa mor effeithiol ydyw? |

**Beth ddylai cofnodion ataliaeth ysgolion eu cynnwys?**

Yr enw ar hwn weithiau fydd y 'llyfr rhwym', fodd bynnag, gall ysgolion storio'r wybodaeth hon yn electronig neu ar gofnodion papur.

| **RHAID i ysgolion:** | **Arfer gorau:** |
|---|---|
| Ddilyn eu polisi eu hunain yn gywir. | Dylai'r cofnod gynnwys:<br><br>• y math o ataliaeth<br>• y rheswm/rhesymau dros ddefnyddio ataliaeth<br>• ble a phryd y defnyddiwyd yr ataliaeth<br>• hyd yr ataliaeth<br>• yr effaith ar y plentyn, gan gynnwys unrhyw anafiadau, ac unrhyw risgiau i'w lles corfforol neu feddyliol<br>• nodweddion gwarchodedig y plentyn (gan gynnwys oedran, rhyw, anabledd – wedi'u dadansoddi yn ôl y math o amhariad a hil)<br>• canlyniad unrhyw adolygiad o ddigwyddiad, gan gynnwys unrhyw fesurau a gymerir i osgoi neu leihau ataliaeth a risg niwed yn y dyfodol<br>• ymwneud y disgybl â'r adolygiad<br>• pryd rhoddwyd gwybod i'r rhieni<br>• Adolygu tueddiadau, gan ystyried yr holl wybodaeth hon ar lefel yr ysgol |

## Sut olwg sydd ar arfer effeithiol?



# Atodiad 9: Arweiniad ar gyfer cefnogi dysgwyr ag amhariad ar y clyw

## Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu

### Ystyriaethau cyffredinol am arfer effeithiol yr ystafell ddosbarth i blant ag amhariad ar y clyw

**A yw disgyblion…?**

- Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau staff?
- Yn datblygu'u medrau, gan gynnwys gallu gweithio'n annibynnol?
- Yn datblygu'u hyder ac yn dod yn ddyfeisgar wrth gefnogi eu dysgu eu hunain?
- Yn gallu cymryd rhan mewn deialog ystyrlon gyda staff a disgyblion eraill?
- Yn gallu adnabod eu bod wedi cyflawni amcanion dysgu gwersi?
- Yn datblygu iaith a geirfa sy'n briodol i oedran?
- Yn datblygu medrau cymdeithasol sy'n briodol i oedran?

**Iaith Arwyddion Prydain yn y cwricwlwm**

Mae mwy o ysgolion yn gallu addysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith oherwydd newidiadau sy'n rhan o ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Gall BSL fod yn iaith gyntaf i rai dysgwyr ond i eraill, gall BSL fod yn drydedd iaith neu'n iaith ddilynol.

Dylid ystyried BSL yng nghyd-destun maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae gwybodaeth benodol am BSL wedi'i hychwanegu at y Camau cynnydd ym maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Ar hyn o bryd, nid oes asesiadau statudol mewn BSL ac nid oes TGAU BSL ar gael ar hyn o bryd.

Dylai ysgolion a cholegau fod wedi sicrhau medrau addysgu a rhuglder tiwtoriaid BSL. Yn gyffredinol, dylai tiwtoriaid fod wedi cymhwyso i o leiaf ddwy lefel uwchlaw'r lefel y maent yn addysgu. Mae'r NDCS yn argymell BSL lefel 3, o leiaf.

Mae gan BSL gysylltiadau diwylliannol cryf gyda'r Gymuned Pobl Fyddar a gallai ysgolion elwa o estyn allan i Glybiau Byddar nesu wasanaethau cymorth lleol.

**A yw athrawon/staff cymorth…?**

- Yn sicrhau eu bod wedi dal sylw dysgwr sydd ag amhariad ar y clyw cyn siarad?
- Yn hwyluso darllen gwefusau trwy wynebu'r dosbarth wrth siarad, gan osgoi cael eu cefnau at ffenestr, a pheidio â rhoi'r siaradwr yn y cysgod?
- Yn ailadrodd yr hyn y mae disgyblion eraill yn ei ddweud?
- Yn ei gwneud yn glir pan gyflwynir testun sgwrs newydd?
- Yn siarad yn arferol ac yn glir? Gall gweiddi neu siarad yn araf aflunio patrymau gwefus ac mae llawer o ddysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw yn dibynnu ar ddarllen gwefusau.

- Yn sicrhau bod dysgwr sydd ag amhariad ar y clyw yn dilyn trywydd y wers?
- Yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dilyn gwaith grŵp/trafodaeth grŵp? Mae'n well cynnal trafodaethau grŵp mewn cylch, gyda siaradwyr yn cymryd eu tro i roi sylwadau a nodi pob siaradwr cyn iddo/iddi siarad.
- Yn sicrhau bod cyfarwyddiadau ar gyfer gwaith cartref yn cael eu hysgrifennu a'u rhoi i'r disgybl?
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion? A ydynt yn gallu cynorthwyo i ddatblygu medrau a dealltwriaeth newydd? A ydynt yn datblygu medrau annibyniaeth disgyblion yn briodol? A yw staff cymorth yn meddu ar wybodaeth ddigonol am y pwnc sy'n cael ei addysgu?
- Yn sicrhau bod adnoddau a dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n addas i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i ddysgwyr? Yn gwybod sut i weithredu ac unioni diffygion sylfaenol technoleg clyw berthnasol y mae'r disgybl yn ei defnyddio, e.e. cymhorthion radio neu system maes sain?
- Yn sicrhau bod adnoddau a dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n addas i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i ddysgwyr?
- Yn sicrhau bod gweithgareddau allgyrsiol neu glybiau ar ôl yr ysgol yn hygyrch i ddysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw?

**Syniadau buddiol ar gyfer addasu adnoddau ac addysgu**

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i wersi sy'n seiliedig ar seiniau, fel ffoneg, iaith a cherddoriaeth, a dylid defnyddio cymhorthion gweledol, ble bynnag y bo modd. Gall addysgu'r pwyntiau yr ymdrinnir â nhw yn y wers ymlaen llaw fod yn fuddiol, hefyd.

Mae defnyddio cyfuniad o addysgu ar-lein, digidol ac wyneb yn wyneb yn helpu i roi mynediad amlsynhwyraidd i'r cwricwlwm i ddisgyblion sydd ag amhariad ar y clyw. Rhaid i adnoddau fideo neu waith cartref ar y rhyngrwyd fod yn hygyrch, e.e. is-deitlau.

Mae angen canolbwyntio'n fanwl i ddarllen gwefusau, a gall fod yn flinedig. Nid oes disgwyl i ddysgwyr ddarllen gwefusau am gyfnodau helaeth. Dylai athrawon gofio hefyd na fydd rhywun sy'n darllen gwefusau yn gallu dilyn rhywun yn siarad a gwneud nodiadau ar yr un pryd.

Yn aml, mae dysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw yn cael anawsterau â'r cof gweithio a'r cof clywedol, a gallai fod angen amser ychwanegol i feddwl.

Caniatewch amser i blant sydd ag amhariad ar y clyw edrych ar gymhorthion gweledol cyn siarad amdanynt.

Gall trafod cynlluniau gwersi â staff cymorth ymlaen llaw gynorthwyo hygyrchedd.

**Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

- A yw data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei roi mewn amgylchedd/lleoliad priodol a thawel?

- A yw'r ysgol wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion disgyblion wrth addasu'r amgylchedd ffisegol?
- Sut mae'r ysgol yn annog disgyblion sydd ag amhariad ar y clyw i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at yr amhariad ar eu clyw?
- A yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion sydd ag amhariad ar y clyw gyfarfod â phobl ifanc eraill sydd ag amhariad ar y clyw, lle bo'n briodol?
- A gaiff mesurau rheoli priodol eu nodi mewn asesiadau risg i sicrhau nad yw disgyblion sydd ag amhariad ar y clyw yn cael eu rhoi dan anfantais? Er enghraifft, efallai na fydd disgyblion sydd ag amhariad ar y clyw yn clywed larwm tân clywadwy.

**Syniadau buddiol ar gyfer addasu'r amgylchedd**

Dylid rhoi disgyblion sydd ag amhariad ar y clyw i eistedd mewn man lle gallant weld a chlywed yr athro, ac adnabod siaradwyr eraill yn y dosbarth.

Defnyddio dodrefn meddal i wella acwsteg a lleihau datseinedd sain.

Lleihau sŵn yn y cefndir.

Gwneud defnydd hyderus a chyson o unrhyw dechnoleg berthnasol, fel cymhorthion radio neu systemau maes sain.

**Maes arolygu 3: Arwain a gwella**

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- Yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr sydd ag amhariad ar y clyw?
- Yn sicrhau bod pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol am ymwybyddiaeth o fyddardod?
- Yn sicrhau bod staff perthnasol yn meddu ar gymhwyster priodol ar gyfer gweithio gyda phlant sydd ag amhariad ar y clyw? Pan fydd dosbarth arbenigol awdurdod lleol, a oes athro cymwys ar gyfer y plant byddar? (Arbenigwr sydd â chymhwyster ôl-raddedig i addysgu plant sydd ag amhariad ar y clyw.) Pan fydd dysgwr yn defnyddio iaith arwyddion Prydain, a yw'r disgybl yn cael cymorth gan weithiwr proffesiynol sydd â chymhwyster lefel 3 o leiaf mewn iaith arwyddion Prydain?
- Yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith disgyblion a rhieni sy'n clywed?

# Atodiad 10: Arweiniad ar gyfer cefnogi dysgwyr ag Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog

## Maes arolygu 1:  Addysgu a Dysgu

**Lle bo'n briodol, ar sail y ddealltwriaeth y gall fod cyflyrau dirywiol ar rai dysgwyr, nad ydynt yn caniatáu am gynnydd llinol clir...**

- Mewn gwersi a thros gyfnod, a oes tystiolaeth fod cynnydd yn cael ei wneud o fannau cychwyn i ddysgwyr ag anawsterau dwys a lluosog?
- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn datblygu medrau priodol a, lle bo'n briodol, cymwysterau neu achrediadau priodol?

**A yw dysgwyr…?**

- yn datblygu'u medrau, gan gynnwys gallu gweithio gyda mwy o annibyniaeth, yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd?
- yn gallu cyfathrebu fwyfwy? Er enghraifft, defnyddio dyfeisiau AAC (cyfathrebu amgen ac estynedig), arwyddo, ystumiau'r wyneb, syllu neu debyg.
- yn gallu cyflawni targedau yn eu cynlluniau unigol?
- yn datblygu medrau o'u mannau cychwyn?
- yn datblygu medrau perthnasol ar gyfer eu llwybr yn y dyfodol?
- Yn dysgu sut i ofalu am eu hiechyd a chadw'n ddiogel?

**A yw athrawon/staff cymorth…?**

- yn defnyddio enw'r dysgwr i ennill sylw cyn cyfathrebu â nhw?
- yn defnyddio amrywiaeth eang ac addas o adnoddau i gynnal symbyliad a diddordeb? E.e. dyfeisiau synhwyraidd, adnoddau pwrpasol wedi'u teilwra i angen a dewis unigol.
- yn addasu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr hyn?
- yn darparu profiadau a chyfleoedd creadigol sydd â'r potensial i wella cyfleoedd newydd i deuluoedd y tu allan i amgylchedd yr ysgol?
- yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn tasgau pâr a grŵp gyda chymorth priodol, lle bo'n briodol?
- yn deall targedau dysgwyr a'r sail resymegol wrth eu gwraidd? A yw'r targedau hyn wedi integreiddio i gynllunio yn effeithiol?
- yn caniatáu digon o amser prosesu i ddysgwyr feddwl ac ymateb?
- yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y dysgwyr?
- yn cynorthwyo â datblygu medrau a dealltwriaeth newydd?
- yn datblygu medrau annibyniaeth dysgwyr yn briodol?
- yn cyfrannu at gynhyrchu cynlluniau perthnasol? E.e. CDUau a CAUau.
- yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer effaith ac ysgogiad yr amgylchedd ar ddysgwyr?
- yn gwneud defnydd effeithiol o feysydd diddordeb arbennig i wella diddordeb a chynnydd?
- yn gosod disgwyliadau uchel o ran diddordeb a chynnydd trwy dasgau creadigol

ac unigolyddol ar lefel briodol o her?
- yn deall ac yn cynllunio ar gyfer anghenion iechyd a synhwyraidd unigrwydd dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i alluogi cynnydd dysgwyr a'u mynediad at y cwricwlwm? E.e. therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi.
- yn defnyddio adnoddau asesu perthnasol i olrhain cynnydd?
- yn cael cyfleoedd i gofnodi, rhannu ac olrhain 'cam bach' cynnydd dysgwyr i sicrhau datblygiad medrau yn dda?
- yn gallu diffinio cynnydd i ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- yn darparu adborth ystyrlon i ddysgwyr?
- yn hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd sy'n briodol? E.e. ychydig o Gymraeg achlysurol yn y dosbarth sy'n cael ei hesbonio, ei hatgyfnerthu a'i chysylltu â gweithredu.

**Cynnydd**

- Ni fydd dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog bob amser yn gwneud cynnydd dros gyfnod. Gall fod yn ddefnyddiol i'r arolygydd ymchwilio i'r cyflwr penodol sydd gan ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae rhai cyflyrau yn ddirywiol ac, o ganlyniad, gall cynnydd dros gyfnod fod yn ddisgwyliad afrealistig neu amhosibl. Mewn ambell achos, gall cyflyrau olygu bod y dysgwr yn colli gallu corfforol a gwybyddol dros gyfnod ac yn cwympo'n ôl.
- Gall fod yn anodd i ddysgwyr ag amhariad ar y golwg ei chael hi'n anodd integreiddio a chydlynu gwybodaeth a gafwyd trwy synhwyrau eraill. Os ydynt yn gallu casglu gwybodaeth ddefnyddiol am eu hamgylchedd, dylai gwybodaeth synhwyraidd gael ei strwythuro'n ofalus.

| **Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad** |
|---|

Sylwch, efallai na fydd hi'n briodol ystyried presenoldeb y dysgwyr hyn fel rhan o faes arolygu 2 oherwydd y cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag anawsterau dysgu dwys a lluosog.

**A yw dysgwyr…?**

- yn cael yr amser a'r lleoliad priodol i ymdawelu a hunanreoleiddio os ydynt yn teimlo'n bryderus, pan fo'n briodol?
- yn cael cyfle i fynegi eu barn a'u teimladau, lle bo'n briodol?
- yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol a llais y dysgwr o fewn lleoliad ehangach yr ysgol? Er enghraifft, y cyngor ysgol, clybiau.
- wedi'u symbylu ac yn ymddiddori mewn tasgau o ganlyniad i ystyriaeth ofalus ynghylch anghenion unigol y dysgwr?
- gyda chymorth, yn gallu meithrin eu cynefindra â thasgau gydag amser fel eu bod yn dod yn gyfforddus ac yn hyderus?
- wedi'u cefnogi'n addas i ymdopi â phontio rhwng tasgau, gwersi ac amgylcheddau, mewn ffordd sy'n peri'r tarfu gofynnol lleiaf ar weithgareddau seiliedig ar y cwricwlwm?
- lle bo'n briodol, yn gallu dilyn cyfarwyddiadau gan staff?

- yn barod i ymwneud â chymheiriaid? Lle bo hyn yn briodol.

**A yw staff …?**

- A yw staff yn cefnogi anghenion gofal personol dysgwyr gyda sensitifrwydd ac urddas?
- A yw unrhyw gymorth ychwanegol yn targedu datblygiad medrau bywyd ac yn meithrin lefel briodol o annibyniaeth?
- A yw'r ysgol wedi cyfrif yn ddigon da am anghenion dysgwyr wrth addasu'r amgylchedd ffisegol a darparu cyfarpar arbenigol, fel y bo angen? Er enghraifft, defnyddio teclynnau codi, toiledau wedi'u haddasu, cyfarpar synhwyraidd.
- A yw'r ysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid, gan gynnwys rhieni ac arbenigwyr, i nodi anghenion dysgwyr a chynnig darpariaeth briodol?
- A oes gan yr ysol adnoddau arbenigol addas i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- A yw dysgwyr wedi'u paratoi ar gyfer eu llwybrau yn y dyfodol? Er enghraifft, trwy gysylltiadau cadarnhaol â darparwyr AB.
- A yw'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn yn yr agweddau cymdeithasol ehangach ar fywyd yr ysgol?
- A yw targedau mewn CAUau a CDUau yn berthnasol ac yn briodol i ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog? A ydynt yn cydnabod ac yn ymgorffori'r amser y gall fod ei angen i lynu'n ddigonol at anghenion iechyd a gofal cymdeithasol? E.e. meddyginiaeth, bwydo a mynd i'r toiled fel bod anghenion yn cael eu diwallu, ond caniatáu hefyd i fyfyrwyr gael ystod lawn o brofiadau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- I ba raddau (a lle y bo'n briodol) y mae'r ysgol yn gwneud cyfleoedd buddiol ac ystyrlon i ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ran dewis ffyrdd iach o fyw yn gysylltiedig â bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein a rhyw a pherthnasoedd?
- A yw gweithdrefnau diogelu yn ystyried anghenion a galluoedd penodol dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- I ba raddau y mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol wedi'i theilwra i anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- A yw dysgwyr a rheini'n cael eu hannog i fanteisio ar ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gymryd rhan yn llawn yn yr adolygiadau hyn?
- A gaiff data ei gasglu a'i goladu am ddysgwyr sy'n cefnogi ac yn monitro lles myfyrwyr? Er enghraifft, derbyniadau i'r ysbyty, amlder ffitiau ac ati.
- A oes tystiolaeth o weithio amlasiantaethol tryloyw a chydweithredol? Er enghraifft, gallu amlygu enghreifftiau o sut mae asiantaethau allanol wedi cynghori a chefnogi ymarfer neu amgylchedd gwell.
- A yw mesurau priodol wedi'u nodi mewn asesiadau risg i sicrhau nad yw dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog dan anfantais? Er enghraifft, eu cynnwys mewn ymweliadau oddi ar y safle neu weithdrefnau trin cadarnhaol?
- A yw staff wedi cael hyfforddiant addas ar feysydd fel codi a chario a gofal personol i sicrhau bod trefniadau ar gyfer dysgwyr yn briodol?
- A oes gweithdrefnau priodol ar waith i gofnodi unrhyw anafiadau a rhoi gwybod amdanynt? Er enghraifft cleisio o declynnau codi.

- A yw protocolau meddygol i ddysgwyr anabl unigol yn gyfredol ac a yw staff wedi cael hyfforddiant priodol?

| Maes arolygu 3: Arwain a gwella |
|---|

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- yn gosod disgwyliadau uchel a phriodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac yn sicrhau bod o leiaf un arweinydd yn cael y dasg o ddiweddaru eu hymarfer/gwybodaeth o ran anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- yn annog creadigrwydd a myfyrio ar arfer orau?
- yn sicrhau bod staff sy'n gweithio'n agos gyda dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog wedi cael hyfforddiant priodol i'w galluogi i ymgymryd â'u rôl yn ddiogel ac yn hyderus? Er enghraifft, gweinyddu meddyginiaeth, bwydo a chodi a chario.
- yn sicrhau bod hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddiweddaru, fel y bo'n briodol?
- yn sicrhau bod gan staff sy'n gweithio'n agos gyda dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog fecanweithiau clir ac uniongyrchol o fewn yr ysgol os byddant yn dod ar draws unrhyw broblemau? Er enghraifft, argyfyngau neu bryderon meddygol.
- yn sicrhau nad yw staff sy'n gweithio gyda myfyrwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn teimlo'n unig a'u bod yn amlwg yn rhan o dîm staff?
- yn sicrhau bod gan y staff hynny sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ddealltwriaeth briodol o dargedau, anghenion a darpariaeth?
- yn sicrhau bod staff sy'n darparu gofal personol yn cael eu diogelu trwy bolisïau a gweithdrefnau priodol?
- yn sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn wybodus ac yn gyfranwyr gwerthfawr?
- yn sicrhau, os yw dysgwyr wedi cael diagnosis o anawsterau dysgu dwys a lluosog, bod cyngor priodol yn cael ei geisio, pan fo'n berthnasol, oddi wrth asiantaethau allanol fel therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd, yn unol â'u gweithdrefnau atgyfeirio a bod unrhyw gyngor yn cael ei weithredu?
- yn sicrhau bod yr adnoddau perthnasol ar waith a bod staff sy'n defnyddio'r adnoddau wedi'u hyfforddi'n addas?
- yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o anawsterau dysgu dwys a lluosog yn yr ysgol a gyda rhieni?
- yn sicrhau bod y defnydd o staff cyflenwi yn cael ei reoli a'i fonitro'n ofalus o ran dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog?
- yn sicrhau bod tystiolaeth o weithio amlasiantaethol, ei fod yn cael ei annog a'i fod yn dryloyw ac yn gadarnhaol?
- yn sicrhau bod ffocws ynghlwm wrth gadw cofnodion a'i fod yn hylaw?

## Atodiad 11: Dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl

### Ystyriaethau cyn yr ymweliad

Efallai bydd yr Arolygydd Cofnodol eisiau ystyried/gofyn am y wybodaeth ganlynol cyn unrhyw ymweliad:

- Yn ogystal ag athrawon, nifer y staff addysg a gofal sy'n cefnogi yn yr ysgol
- P'un a yw gweithwyr gofal preswyl i blant (gan gynnwys staff asiantaeth) sy'n mynychu'r ysgol ar y gofrestr ganolog unigol
- P'un a yw'r cofnodion staff a hyfforddiant y gofynnir amdanynt ar gyfer staff addysg, gofal a chynorthwyol

### Cwestiynau yn ystod yr ymweliad

**Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu**

- Lle mae staff preswyl yn arwain gwersi, a ydynt yn ymwybodol o amcanion dysgu, cynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad?
- A yw dysgwyr a'u staff cymorth yn cael eu grwpio mewn ffordd sy'n atal gorlenwi'r ystafell ddosbarth?
- A yw staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac ymddygiad?
- A yw staff cymorth yn ymyrryd yn briodol mewn chwarae a dysgu annibynnol dysgwyr i ddatblygu'u medrau ar lefel addas?
- A oes gan yr holl staff ddisgwyliadau cyson uchel o ddysgwyr?
- A yw'r holl wersi ymarferol, er enghraifft ymarfer corff, yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno gan staff sydd â medrau priodol?
- A yw'r holl ddysgwyr yn gallu manteisio ar ehangder o brofiadau dysgu yn gyfartal, er enghraifft mynediad i'r gymuned? (Gall hyn gyfeirio at argaeledd cerbyd neu yrrwr oherwydd bod adnoddau'n cael eu neilltuo i grŵp penodol o ddysgwyr.)

**Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

- A yw dysgwyr yn gallu gofyn am newid eu staff cymorth yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol? Er enghraifft ataliaeth gorfforol.
- A yw'r holl staff sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY yn ymwybodol o dargedau mewn CDUau?
- Pa mor dda y mae staff cymorth yn deall ac yn defnyddio strategaethau i gynorthwyo ADY dysgwyr unigol? Er enghraifft gan ddefnyddio Makaton.
- A yw staff cymorth yn gwybod am ddeddfwriaeth a pholisi diogelu a gwrthfwlio sy'n berthnasol mewn lleoliad addysg?
- A yw gwiriadau cyn-cyflogaeth yn cael eu cwblhau i safon briodol i'r holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth) a'u cofnodi ar un gofrestr ganolog?
- Pan fydd pryderon yn cael eu codi ynghylch aelod staff yn ystod y broses recriwtio (e.e. cynnwys y GDG, geirdaon anfoddhaol), a yw arweinwyr yn

ymwybodol o hyn ac yn rhan o’r broses benderfynu?

- Os yw wedi’i nodi mewn CDU (neu gyfwerth), a yw staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i ddysgwyr?
- A yw’r holl staff yn briodol o fedrus mewn dulliau cymorth unigol i ddysgwyr? Er enghraifft, wrth ddefnyddio Makaton, PECs neu debyg?
- Os bydd dysgwr yn cael cymorth 1:1, neu debyg, a yw cymarebau staffio’n cael eu hadolygu’n rheolaidd i sicrhau bod gan ddysgwyr y lefelau priodol o gymorth i barhau i wella lefelau eu hannibyniaeth?
- Pan fydd dysgwyr yn cael lefelau uchel o gefnogaeth, a yw staff yn sicrhau nad yw hyn yn rhwystro’u hannibyniaeth?
- A yw staff cymorth yn caniatáu i ddysgwyr wneud camgymeriadau? A yw dysgwyr yn cael cyfleoedd i gywiro’u camgymeriadau eu hunain?
- A yw’r holl staff wedi hyfforddi’n briodol mewn ymyrraeth gorfforol? A ydynt i gyd yn cael yr un model hyfforddiant? Pwy sy’n cofnodi’r digwyddiadau hyn a sut mae adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu rhannu rhwng yr ysgol a’r cartref?
- Sut mae’r holl staff yn cyfrannu at y diwylliant diogelu o fewn yr ysgol?

**Maes arolygu 3: Arwain a gwella**

- Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn cael lefel briodol o gymorth a/neu oruchwyliaeth fel yr amlinellir yn eu CDU (neu gyfwerth)?
- A yw arweinwyr yn ymwybodol o set medrau tîm y staff ac yn eu defnyddio i gynllunio’n briodol? Er enghraifft, defnyddio profiad staff cymorth ar gyfer arweiniad dysgu neu yrfaol.
- Sut mae penderfyniadau staffio yn effeithio ar les disgyblion?
- Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod staff cymorth yn goruchwylio dysgwyr yn briodol?
- A yw’r ysgol yn neilltuo adnoddau digonol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY?
- A oes gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr dysgwyr sy’n helpu parhau â dysgu gartref?
- Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff (parhaol ac asiantaeth) yn cael eu hyfforddi’n briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr?

Sut mae’r ysgol a chartref y plant yn cydweithio i reoli presenoldeb yn yr ysgol, prydlondeb a gwaharddiadau?